PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 437 | Mawrth 2021



Cystadlaethau er cof am Cen t.8



Bargen gan y Cardis t.12

Diolch am y gofal t.5



# Awdur prysur Goginan

Mae Caryl Lewis, sy'n byw yng Ngoginan gyda Aled, ei gŵr, a'r plant, yn adnabyddus ers blynyddoedd fel awdur nofelau a storiau i blant ac oedolion. Ers ei llwyddiant mawr cyntaf gyda'r nofel *Martha, Jac a Sianco*, a gyhoeddwyd yn 2004, mae hi wedi cyhoeddi toreth o lyfaru ac wedi gweithio ar ddramâu a sgriptiau ffilmiau a rhaglenni teledu.

Yn y pythefnos diwethaf daeth y newyddion fod Caryl wedi sicrhau cytundebau am lyfrau newydd Saesneg gyda dau o gwmniau mawr y byd cyhoeddi Saesneg. Yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf mae cwmni Doubleday, sy'n rhan o gwmni mawr Penguin, yn bwriadu cyhoeddi *Drift*, nofel i oedolion. Stori yw hi am Gymraes ifanc yn syrthio mewn cariad gyda dyn o Syria sy'n glanio yn ei hardal. Mae'r nofel eisoes wedi'i gorffen ac mae'r cwmni wedi prynu hon a nofel arall i oedolion y bydd Caryl yn gweithio arni'n fuan. Fel petai hynny ddim yn ddigon, mae Macmillan Children's Books wedi prynu dau lyfr i blant ganddi. Y cyntaf yw *Seed*, y bwriedir ei gyhoeddi fis Mai 2022. Stori i blant tua 8-12



oed yw hon, stori hwyliog, llawn dychymyg lle mae Marty yn cael hedyn arbennig iawn yn rhodd gan ei daid. Eto, mae'r llyfr hwn wedi'i orffen, a bydd Caryl yn troi at yr ail lyfr yn fuan.

Er fod dwy o nofelau Cymraeg Caryl wedi cael eu cyhoeddi mewn cyfieithiadau Saesneg, dyma fydd y tro cyntaf i Caryl gyhoeddi llyfrau a ysgrifennwyd yn wreiddiol yn Saesneg. 'Rôn i'n credu ei bod hi'n bwysig fod lleisiau Cymraeg a Chymreig yn cael eu clywed yn y byd cyhoeddi Saesneg yn Llundain', meddai Caryl. 'Hefyd rôn i am ddangos i bobl, a phobl ifanc yn arbennig, ei bod hi'n bosibl byw yng nghefn gwlad Cymru, mewn lle fel Goginan, a gallu cymryd rhan yn y byd mawr y tu fâs i Gymru.'

Dydi torri trwodd i'r byd cyhoeddi Saesneg ddim yn hawdd. Yr un sydd wedi helpu Caryl i wneud hyn yw Anwen Hooson, Cymraes Gymraeg sy'n dod yn wreiddiol o ogledd ddwyrain Cymru. Mae hi'n asiant llenyddol, sef rhywun sy'n gweithio ar ran awduron i geisio dod o hyd i gyhoeddwyr fyddai â diddordeb yn eu gwaith. Mae Caryl yn hael ei chanmoliaeth i waith Anwen yn ei chynorthwyo i gael y cyfleon hyn.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch iawn o lwyddiant Caryl, ac yn dymuno'n dda iddi yn y cam newydd hwn yn ei gyrfa.

## Dwyn mae cof?







**Tabernacl Cwmsymlog. Mae y llun cyntaf yn dangos fel yr oedd yr adeilad yn 2018 cyn i'r perchnogioin newydd ddechrau ei adnewyddu. Maent wedi gwella y tu allan ond heb fedru cyflawni llawer y llynedd oherwydd y sefyllfa. Bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd yn datblygu. Mae'r lluniau eraill gan y ffotograffydd Barry Eveleigh – gweler t. 13 am lun o'r capel y tu allan heddiw gan y perchennog a mwy o luniau Barry Eveleigh.**

# y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill: Dyddiad cau** Ebrill 9, **Dyddiad cyhoeddi** Ebrill 21

**MAWRTH 19** Dydd Gwener Diwrnod Trwynau Coch
**MAWRTH 19** Nos Wener 'Noson yng nghwmni Siân James', Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662 .
**MAWRTH 20** Nos Sadwrn Cyngerdd Calon Hafan yn y Neuadd Fawr. Ail drefnir
**MAWRTH 21** Dydd Sul Diwrnod y Cyfrifiad
**MAWRTH 26** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg.
**MAWRTH 27** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau awr ymlaen
**EBRILL 12** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r Pasg.
**MA1 1** Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth 2021. Cystadlaethau gwaith cartref i fod i mewn cyn EBRILL 26 Manylion ar gael gan Megan Jones Roberts, 24 Pen Rheidol, Penparcau, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1QW meganjones849@gmail.com

## Annwyl Olygydd

**Diogelwn - cynllun newydd i ddiogelu enwau Cymraeg ar dai**
Hoffwn, trwy gyfrwng eich tudalen llythyron, dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw DIOGELWN y mae Cymdeithas yr Iaith wedi'i lansio. Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

- **Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ:** gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.
- **Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ:** gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymynddерbynwyr o dan eich Ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).
Cofion gorau
Mabli Siriol
Cadeirydd
d/o Cymdeithas yr Iaith
Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth SY23 1JH Cymru
01970 624501

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror 2021

**£25** (Rhif 256) Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau
**£15** (Rhif 182) Llyr James, Gorwel Deg, Taigwynion, Llandre
**£10** (Rhif 64) Stephen Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol. Diolch i'r Parchg Ifan Mason Davies am ddychwelyd ei wobr o £15.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Cymuned Melindwr £100
Cyngor Cymuned Trefeurig £200
Cyngor Cymuned y Borth £50
Cyngor Cymuned Tirymynach £600
Y Parchg Ifan Mason Davies £15 (Dychwelyd gwobr)

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Y Cynghorydd Hywel Wyn Jones, Is-Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 1992, a Chadeirydd ei His-bwyllgor Cyhoeddusrwydd yn cyflwyno copi o fap Hywel Harries o fro'r Eisteddfod i Llio Millward. Gwelir y tu ôl iddynt bump o ddisgyblion Ysgol Penweddig a fu'n addurno muriau'r siop dan ofal eu hathro celf, Glyn Tomos. O'r chwith i'r dde – Ffion Davies, Angharad Llwyd, Owain Glyn, Geraint MacDonald a Siôn Dafis.
Llun: Hugh Jones (O'r *Tincer* Mawrth 1991)

# Eich Straeon Chi

Mae rhywbeth yn dod i'ch ardal chi a gallwch chi fod yn rhan o'i greu – rhywbeth bach gallwch ond ei weld unwaith.

Gyda dim ond amser byr i gael gweld y gwaith fe fydd yn gyfle unigryw i weld perfformwyr o bob math yn ymweld a chefn gwlad Ceredigion.

Mae ynysrwydd cefn gwlad wedi gwaethygu oherwydd COVID19 gan arwain at orddibyniaeth ar gyfryngau torfol amhersonol. Oherwydd hyn bydd Cwmni Theatr Arad Goch yn creu perfformiadau bach awyr-agored fydd yn digwydd yn eich ardal.

Drwy ganolbwyntio ar y thema 'Ein Storïau Ni', rydym am gynnwys chwedlau a hanesion lleol ochr yn ochr â storïau a newyddion cyfredol a diweddar. Fe fyddwn yn cydnabod a dathlu ein hetifeddiaeth yn ogystal â chryfderau a digwyddiadau ein cymuned fodern. A rydyn ni am gynnwys eich storïau chi!

Felly rydym yn gofyn i chi gysylltu â ni i rannu eich stori – am berson neu am ddigwyddiad neu am atgof: mae tameidiau bach o hanes yn gallu creu stori fawr!

Cwmni Theatr Arad Goch

Gallwch anfon eich stori ar papur, drwy ebost neu fel recordiad sain o'ch ffôn.


Yn ogystal rydyn ni am i chi awgrymu lleoliadau i ymweld â nhw i berfformio tu allan. Bydd criw o grwydriaid lliwgar yn cyrraedd, heb fawr o rybudd, i berfformio, canu a dawnsio ar y sgwâr, dros y wal, yn yr ardd, ar fferm, ar ochr yr hewl, ar stepyn drws neu drwy'r ffenest – gan gadw pellter diogel, wrth gwrs. Awgrymwch le i ni fynd i berfformio neu enwebwch rywun a fyddai'n hoffi cael ymweliad bach i godi calon ar ein taith.

Cysylltwch â ni ar post@aradgoch.org os ydych am gyfrannu stori, i awgrymu lleoliad neu am fwy o wybodaeth.

Stryd y Baddon, Aberystwyth,
SY23 2NN Cymru
ffôn: 01970.617998, post@aradgoch.org

Uchafbwyntiau'r mis ar **BroAber360.cymru**


**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo bawb! Llwyth o straeon da ar BroAber360 dros y mis diwethaf. Rydym hefyd wrthi'n cynnal nosweithiau i fudiadau ac yn datblygu'r wefan drwy'r amser. Cadwch lygad ar sianelau cyfryngau cymdeithasol BroAber360 am y diweddaraf! Tan tro nesa - Dan

**HER HANNER TYMOR**

Efallai da chi di bod wrthi'n cymryd rhan yn Her Hanner Tymor Ysgolion Penrhyn-coch a Phenllwyn? Gallwch ddarganfod fwy am yr her, a chyfrannu ar waelod y darn yma.




**ARAD GOCH AR LEIN**

Diolch i Gwmni Theatr Arad Goch am greu'r darn yma sydd yn adrodd diweddaraf y sefydliad, a beth sydd yn dod fyny ganddynt. Bron i flwyddyn ymlaen o'r clo cyntaf, mae'n bwysig cofio i gefnogi'r celfyddydau, a'r rôl maent yn chwarae yn ein cymunedau.



**Y CARDIS YN CYNNIG BARGEN**

Os mae'r Cardis yn hoffi un peth, bargen di honna! A dyma wir fargen i chi - sêl ar ddillad Eisteddfod Ceredigion, a chyfle i chi fachu bach o hanes wrth edrych ymlaen at Eisteddfod Tregaron 2022!



**Ffili aros tan y papur nesa'? – BroAber360.cymru**

## Hawl i Holi

Mae'r gyfres radio Hawl i Holi yn ei hôl!

Er nad oes cyfle i deithio i gymunedau Cymru ar hyn o bryd, mae'r rhaglen Hawl i Holi yn ei hôl. Dewi Llwyd sy'n cyflwyno, herio a chadw trefn ar 4 panelydd. Gan ddarlledu yn fisol ar Radio Cymru rydym yn awyddus iawn i glywed gan gyfranwyr o bob rhan o'r wlad. Os oes gennych chi gwestiwn neu bwnc yr ydych chi am i'n panelwyr ymateb iddo byddem wrth ein boddau'n clywed gennych. Bydd y rhaglenni nesaf ar Ebrill 1af ac Ebrill 29ain am 6 yr hwyr. I gysylltu mae modd ffonio 03703 500700 yn ystod oriau gwaith neu e bostio hawliholi@bbc.co.uk

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu y Cyngor ar nos Iau 28 Chwefror trwy gyfrwng Llinell Ffôn Why Pay? Croesawodd y cadeirydd, y Gynghorwaig Meinir Lowry bawb gan ddweud bod Mis Bach wedi bod yn fis mawr a phwysig i'r ardal pan welwyd ail agor gorsaf Bow Street, a diolchodd i'r Cynghorydd Paul Hinge am ei waith caled a chyson yn ymgyrchu dros gael gorsaf eto yn Bow Street.

Derbyniwyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir. Bu rhaid egluro nad eleni – sef 2021 – y bydd etholiad y Cynghorau Bro fel yr hysbyswyd gan y Swyddfa Etholiadau ond y flwyddyn nesaf – sef 2022 . Hynny yn codi achos hysbysu am Glerc i olynu y Parchg Richard Lewis. Ond mynegodd Mr Lewis y byddai yn barod i barhau yn y swydd dros amser amhenodol tra bod y Cyngor newydd yn cael ei draed tano. Ac yn yr amser priodol byddid yn hysbysu am y swydd o Glerc.

Gan fod un sedd yn wag, penderfynwyd bod y Clerc yn gwirio rheolau parthed cyfethol aelod o'r cyhoedd fyddai yn fodlon llenwi'r sedd. A oes angen hysbysebu yn y wasg yn gyntaf, ac os nad oes ateb, ai dyna pryd y gellir cyfethol?

Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cynghorwr Iestyn Hughes ar sefydlu Gwefan bwrpasol i'r Cyngor. Eglurodd yn fanwl y llwybrau a'r croesffyrdd pwysig oedd arnynt. Bydd yn edrych am gwmni sy'n gwerthu yn rhatach i Gynghorau Bro. Cytunwyd ar bolisi mai Gwefan y Gymuned yn unig fydd hon. Cawn adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf gan y Cynghorydd Iestyn, a diolchwyd yn gynnes iddo am ei waith wirfoddol ar y pwnc.

Llwybr Dolau-Rhydypennau. Dim sicrwydd bod pres ar gyfer ei gychwyn y flwyddyn hon. Efallai y flwyddyn nesaf o fis Mawrth ymlaen ar y rhan gyntaf. Llwybr Troed Y Bont Wen – Ruel. Y gwaith wedi prin gychwyn, ac wedi ei adael. Amhosibl cael rhych na gwellt o Aberaeron! Mwdlyd ofnadwy yw y Llwybr.

Adroddiad y Cynghorydd Paul Hinge. Dywedodd bod y cysgodfa bysiau ger Tregerddan wedi ei fandaleiddio. Ac mae'r Clerc wedi bod mewn cyswllt i gael paneli newydd. Mae angen adolygu sefyllfa cabanau yn yr ardal, a'r costau am eu cynnal a'u cadw. Dywedodd y Cynghorydd Hinge, nawr bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r llwybrau cyswllt newydd a bod angen biniau i ddal baw cŵn yn enwedig ar y llwybr tuag at Gogerddan.

Cynllunio: Saith o dai arfaethedig yn Cae Rhos, problem dŵr wyneb, ac yn suddo i mewn i'r garthffosiaeth. Rhaid i'r Datblygwyr fod yn ymwybodol o hyn, ac mae yna rhyw Frenin Caniwt o Aberaeron wedi addo dod allan i weld a ellir rhwystro y dŵr! Banc y Pennau, i fynd ymlaen gyda nifer o amodau. Clos Corwen. Llywodraeth Cymru wedi galw y cynlluniau i mewn oherwydd mae dŵr wyneb a charthffosiaeth yn achosi pryder lleol.

Mynegwyd consyrn am y fynedfa newydd i ffordd Capel Dewi/Llangurig ar waelod y

Pentref. Ond nid yw swyddogion Adran y Priffyrdd yn cytuno. Un gŵr mawr yn honni mai ar gyrrwyr gwael mae unrhyw fai! mae'n amlwg nad yw efyn gyrru modur heb sôn am lorri neu tancer! Cawn weld!

Cadarnhawyd tâl cyflog y Clerc yn ôl y rheol cytundebau Clercod Cynghorau. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Calon Cymru yn gofyn a yw y diffibriliwr yn cael ei gynnal a chadw. Byddwn yn gwirio a oes angen newid y batris, a phwy sydd yn dwyn y gost.

Adroddwyd bod yr hysbysfwrdd yn dal ar archeb., Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 25 Mawrth.


SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567



Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741


## CAPEL BANGOR





Rhai o aelodau Cylch Meithrin Pen-llwyn yn dathlu Gŵyl Ddewi




# Y BORTH

**Eglwys S. Mathew, y Borth**
Bydd yr Eglwys yn ail-agor ddydd y Pasg gyda gwasanaeth y Cymun am 11.00am gyda'r Canon Philip Wyn Davies yn llywydd.

**Carnifal y Borth 2021**
Cynhaliodd Pwyllgor y Carnifal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Chwefror. Cytunwyd i fynd ati i gynnal sawl digwyddiad eto eleni ond nid Diwrnod y Carnifal ei hun oni bai bod y rheolau wedi newid erbyn hynny. Mae'n debyg iawn y bydd mesurau ymbellhau cymdeithasol a chyfyngiadau ar niferoedd yn dal mewn grym ym mis Awst, gan na fydd pob oedolyn wedi cael ei frechu erbyn hynny.

Bydd Cylchgrawn y Carnifal yn cael ei gynhyrchu os oes unrhyw un yn dymuno hysbysebu neu gyfrannu, a bydd yr un digwyddiadau a gynhaliwyd yn llwyddiannus y llynedd yn cael eu cynnal eto sef yr Ŵyl Sialc, yr Helfa Drysor, y Gystadleuaeth Cestyll Tywod a'r Ras Hwyaid.

Bydd tudalen 'Just Giving' eto a gobeithio y bydd hefyd yn bosibl cynnal y Ras Malwoden ac Ocsiwn gan ddefnyddio Zoom, ac efallai rhyw fath o orymdaith. Y gobaith yw y bydd Carnifal 2021 yn codi cymaint o arian a'r llynedd i'w rannu rhwng mudiadau lleol.

Adroddiad Carol Bainbridge, Cadeirydd Pwyllgor Carnifal y Borth

**Neuadd Gymunedol y Borth**
Tra fo'r Neuadd Gymunedol yn parhau ynghau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol oherwydd cyfyngiadau Covid, cytunodd y Pwyllgor y gallai'r lleoliad gael ei ddefnyddio am dridiau yn ystod mis Chwefror gan y Gwasanaeth Gwaed. Mae meddygfa'r Borth hefyd wedi bod yn defnyddio'r neuadd ar gyfer sesiynau brechu. Mae tair sesiwn wedi'u cynnal hyd yma gyda rhagor i ddod.

**Apêl am arddwyr a phlanhigion**
A hithau'n wanwyn, mae'n gerddi yn dechrau galw unwaith eto ac mae gan Ganolfan Deulu'r Borth apêl arbennig i'w wneud. Byddan nhw'n paratoi potiau o flodau unwaith eto eleni ar gyfer pobl oedrannus y pentref ond mae ganddyn nhw waith ychwanegol ar eu dwylo eleni. Bu rhai o'r gwirfoddolwyr wrthi'n clirio'r tir ac yn creu gwelyau newydd yng ngardd yr Hwb Cymunedol ac mae angen eu plannu nhw bellach. Os oes gennych chi unrhyw blanhigion sbâr – yn flodau, perlysiau neu'n llysiau – byddai'r Ganolfan yn falch iawn o'u derbyn.

Mae'r Sgowtiaid lleol hefyd yn chwilio am blanhigion ar ôl cymryd gofal dros un o'r gwelyau blodau cymunedol wrth ymyl y parc cychod, yn enwedig planhigion sy'n tyfu'n dda mewn ardaloedd arfordirol.

Pobl leol sy'n cynnal a chadw'r gwelyau cymunedol yma ac maen nhw'n edrych yn hynod o ddeniadol pan maen nhw yn eu blodau yn y gwanwyn a'r haf.

Gellid gadael unrhyw blanhigion ar drothwy Hwb Cymunedol y Borth ar Ffordd Clarach neu ffonio Helen Williams ar 07896616857.

Mae Cyngor Cymunedol y Borth hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn gofalu am un o'r gwelyau blodau cymunedol yr ochr arall i'r pentref, ger siop Premier. Cysylltwch gyda'r Cynghorydd Delyth Pryce Jones ar 01970 871694 os oes diddordeb.

**Diolch am y gofal**
A hithau'n flwyddyn union bron ers cychwyn y cyfnod clo cyntaf, hoffai Cymdeithas Pobl Hŷn ynghyd a phentrefwyr oedrannus a bregus eraill y Borth) fynegi eu diolch diffuant drwy dudalennau'r *Tincer*, i Ganolfan Deulu'r Borth a gwirfoddolwyr lleol eraill.

Yn ystod y pandemig, mae grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig iawn yn y Borth wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu danteithion, cysylltiadau cyfathrebu a gweithgareddau i'r henoed a'r unig yn y Borth. Rydym wedi cael gweithgareddau celf a chrefft, tyfu planhigion, danteithion Te Prynhawn, mesuryddion camau i'n hannog i gerdded yn ogystal â'n cysylltu gydag eraill mewn taith gerdded rithwir ar hyd Wal Fawr China, ar hyd afon Nîl a bellach ar hyd arfordir Awstralia. Cawsom gyfle i wau blancedi babanod ac i baentio cerrig ar gyfer helfa Wyau Pasg i blant. Cawsom gardiau a pharseli o nwyddau Nadolig, llyfrau lliwio, a manylion cyswllt ar gyfer ystod eang o grwpiau cymorth gwahanol.

Mae'r rhai sydd â mynediad at gyfrifiadur wedi cael dolenni at lu o weithgareddau ar-lein yn ogystal â derbyn negeseuon rheolaidd, jôcs, fideos hwyliog ac ati. Mae'r rhai sydd heb fynediad at y we wedi derbyn galwadau ffôn rheolaidd sy'n eu galluogi i sgwrsio am fywyd yn gyffredinol, i ofyn am gyngor neu rannu newyddion. Mae gwirfoddolwyr wedi siopa a mofyn presgripsiwn ar ran y rhai nad sy'n gallu gadael y tŷ. Mae ein dwy siop leol wedi derbyn archebion dros y ffôn neu ar lafar, ac mae eu staff cymwynasgar a gofalgar wedi danfon yr holl nwyddau hyn heb godi unrhyw dâl cludo.

Mae'r holl bethau hyn wedi'u rhoi a'u cyflawni'n siriol ac yn ddi-dâl. Rydym yn



bobl hynod o ffodus i gael byw yn un o'r pentrefi mwyaf gofalgar yn y byd. Bu cynifer yn gofalu amdanom ac amhosib fyddai enwi pawb ond y prif drefnydd y tu cefn i'r gofal rhyfeddol yma yw Mrs Helen Williams, Cydlynydd Canolfan Deuluol Borth (a elwir hefyd Hwb Cymunedol y Borth).

Oherwydd gwaith gwerthfawr y gwirfoddolwyr yma yn anad dim yr rydym wedi llwyddo i oroesi cystal y cyfnod ofnadwy hwn o'n hanes. Diolch o waelod calon i chi gyd am bopeth.

Joy Cooke ar ran Cymdeithas Pobl Hŷn ynghyd â phentrefwyr oedrannus a bregus eraill y Borth.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Meirionwen (Iona) Jones, Bodfor, fu farw yn 90 oed yn Hafan y Waun ar Fawrth 3ydd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Lizzie a Huw ar enedigaeth merch fach - Maggie - ar 3 Mawrth; wyres i Mike a Sarah Pugh, y Friendship.

**Casglu sbwriel**
Mae Hwb Cymunedol y Borth wedi prynu offer casglu sbwriel yn ddiweddar. Roedd yn dilyn llythyr gan ferch leol 8 oed at Gyngor Cymunedol y Borth yn tynnu sylw at gymaint o sbwriel roedd hi wedi'i gasglu ar hyd Stryd Fawr y pentre'. Mae'r offer yn cael ei gadw ar stepen drws yr Hwb ac mae croeso i unrhyw un ei fenthyg.



# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 16 Chwefror 2021 ar y we. Cadeiriwyd gan yr Is-gadeirydd, Gwenan Price, gan fod y Cadeirydd, Delyth James, yn anhwylus. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies, Iona Davies a Delyth James.

Ceisiadau am gymorth ariannol: roedd nifer o geisiadau wedi'u derbyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Penderfynwyd cefnogi'r canlynol: Neuadd y Penrhyn, £400; Cymdeithas Cae Chwarae Penrhyn-coch, £300; Cymdeithas Cae Chwarae Pen-bont, £300; Cylch Meithrin Trefeurig, £300; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn-coch, £400; Tîm Ieuenctid Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, £350; Brownis Penrhyn, £250; Ffrindiau Tregerddan, £300; Y Tincer, £250; Gwefan Trefeurig, £300. Addawyd cyfanswm o £3,150.

Cynllunio: cais A201095 – cais am dŷ fforddiadwy ar safle ger Gwynley ar y ffordd i Salem. Eglurwyd fod y safle y tu allan i'r ffin ddatblygu, a bod y cais am dŷ oedd yn sylweddol fwy na thŷ fforddiadwy arferol. Penderfynodd y Cyngor na ddylid cymryd ochr ar y mater ac felly na ddylid anfon sylwadau ymlaen i'r Cyngor Sir. Fe wnaeth Mrs Shân James ddatgan budd yn y mater ac nid oedd yn bresennol ar gyfer y drafodaeth. Cais A201104 – cais am estyniad i Tŷ Gwyn, Cefn Llwyd. Dim sylwadau.

Materion eraill: tynnwyd sylw at y ffaith fod yr orsaf drenau newydd yn Bow Street wedi agor. Dywedodd Mel Evans fod angen torri'r clawdd ar ffordd Llwyn Prysg, ac roedd arwydd Penrhiwnewydd wedi diflannu.

## GOGINAN

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Elen a Arthur Williams, Penrhiwlas ar farwolaeth perthynas iddynt yn yr Alban. Bu farw Eric Paterson gwr eu nith Gwen yn Dundee yn ddiweddar.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i ddau o frodorion Cwmbrwyno
Dennis Prior, Llwyncerdin ar ol derbyn triniaeth yn Ysbyty Tywyosog Phillip yn Llanelli a Huw Jones, Yr Hafan wedi bod yn ysbyty Bronglais ar ol damwain yn ei gartref.

**Newid Aelwyd**
Ein dymuniadau gorau i Pat Griffiths, Sunnyside Villa, syd yn symud I Swydd Hertford i fod yn agosach at ei theulu.



**Mynwent Horeb**
Mae llidiardau newydd wedi cael eu gosod ar fynedfa Mynwent Horeb, Cwmbrwyno. Maent yn rodd gan Elen ag Arthur Williams, Penrhiwlas.

## DOLAU

**Artistiaid lleol**
Mae erthygl am fam a merch - Annie Suganami a Seren Morgan Jones – sydd a chysylltiad â Dolau a Capel Bangor yn y rhifyn newydd o'r cylchgrawn *Cara* - cyfweliad sy'n dangos perthynas annwyl rhwng dau artist arbennig iawn. Croeso nôl i Aberystwyth o Lundain i Seren, ei gŵr Jon a'u merch fach Dyfri; disgwylir ychwanegiad i'r teulu ym mis Mehefin. Mae lluniau Seren ar gael trwy Galeri Ten, Caerdydd ac Oriel Ffin y Parc, Llanrwst.

## DÔL-Y-BONT

**Ennill cystadleuaeth**
Llongyfarchiadau i Tirion Sedgewick, Tynsimdde – disgybl yn Ysgol Penweddig-ar ennill cystadleuaeth dylunio Crys T ar y thema : gobaith a gwên Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Annette a Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt ar enedigaeth ŵyr bach newydd - Joshua Daniel Vincent Lewis, mab i Lisa a Marc a brawd newydd i Zac a Tyler. Mae'r un bach hefyd yn or-ŵyr i Mrs Primrose Watkin, Pen-y-bont Dôl-y-bont.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Cydymdeimlad**
Bu'r mis diwethaf yn un anodd iawn i lawer o deuluoedd yn yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Ty'n Wern ar farwolaeth Mair Williams, mam Ceredig. Bu farw modryb i Dick Davies, Troedrhiwceir, yng Nghlarach a hefyd tad Hugh Morris, Yr Hen Ysgol Aber-ffrwd. 'Rydym yn meddwl amdanoch yn ystod y cyfnod anodd yma.

Trist iawn hefyd oedd clywed fod Dot Kirton gynt o Maesawelon wedi marw yng Nghartref Gofal Peniel, ger Caerfyrddin. Bu hi a Mercia yn byw yn hapus iawn yn y Cwm am nifer o flynyddoedd.

Aber-ffrwd a Chwmrheidol
Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Lizzie a Huw ar enedigaeth merch fach - Maggie - ar 3 Mawrth; wyres i Ian a Ruth Jones, Glanrhydtynoeth, Cwmrheidiol.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Dŵr

## (crynodeb o sgwrs gafwyd i gynulleidfa capel Noddfa'n ddiweddar)

"Beth sydd wedi bod yn bwysig i ni'n ddiweddar? Cadw pellter, gwisgo mwgwd, golchi dwylo – a beth sydd ei angen i olchi dwylo? Dŵr!

Yng nghanol dauddegau'r ganrif ddiwethaf pan oedd Mam ac Uncle John yn blant ac yn byw ar rhiw Nantyfallen, byddai'r doctor yn cynnal syrjeri unwaith yr wythnos yn Glannant, a byddai Mam a'i brawd yn dod i lawr y llwybr sydd yn pasio Spring Cottage i godi dŵr o'r ffynnon er mwyn i'r doctor gymysgu moddion. Yn Glannant mae ôl ar garreg y ffynnon fel hanner cylch lle byddai'r bwced yn cael ei godi. Yn ôl y sôn, roedd y dŵr gyda'r oeraf y medrech ei yfed, a fyddai'r ffynnon byth yn sychu. Ac efallai nad oes llawer ohonoch yn gwybod, ond mae gennym hen ffynnon yng ngwaelod yr ardd.

Roedd ffynnon ar dir llawer eglwys a chredir bod ei dŵr yn iacháu gwahanol anhwylderau. Mae un ger Eglwys Llandre, a gyda dyfodiad y rheilffordd daeth y ffynnon yn atyniad poblogaidd. Gwelwyd yr hysbyseb yma yn yr *Aberystwyth Observer* yn 1867:

*'All those who are suffering from rheumatism should bathe in Llangfihangel Well, which is known to have cured large numbers of persons with this painful disorder. The well is situated close to Llangfihangel Genau'r Glyn station on the Cambrian Railway ...'*

Roedd hefyd poster yng ngorsaf Paddington yn hysbysebu dŵr iachusol y ffynnon hon.

Yn Bow Street, gyferbyn â chapel Noddfa mae tŷ newydd o'r enw Maesyfelin. Mae'r tŷ wedi'i adeiladau yng ngardd Glynrhosyn. Enw gwreiddiol Glynrhosyn oedd Y Felin, a defnyddiwyd hi i lifio coed adeg y ddau ryfel byd. Roedd seidings ar ochr yr afon lle byddai'r coed yn cael ei gadw, ger lleoliad yr orsaf newydd heddiw. Wedi hynny, cafodd ei defnyddio fel felin flawd. Byddai'r dŵr yn cael ei gronni mewn gorglawdd, *dyke*, ar Rhos-fawr, ddim yn bell o leoliad Caerfelin heddiw, a'i ollwg i droi rhod y felin, a'r dŵr wedyn yn mynd yn ôl i'r afon.










Mae Tom Macdonald yn *Y Tincer Tlawd* yn sôn am yr afon a lifai trwy Bow Street. Afon Ceiro yw ei henw, ond i Tom, "afon Dole yn y pen uchaf, ac yn ei thro afon Ty'n Rhos ar y gweundir, afon Rhydypenne wrth y dafarn, a dan y bont, afon Becer wrth fynd drwy gaeau Benji Becer, afon Geinwen trwy lain o eiddo John Gaenwen, afon Ruel ar hyd y caeau isaf, afon Felin yng ngodre Bow Street, ac yna, ar ôl digoni rhod y felin, ymlaen trwy ddolydd Bryncastell at gydiad y ddwy afon i ymgolli yn nyfroedd Afon Rhydhir."

Dim ond ar ros y felin, ar dro yn yr afon, yr oedd modd cronni'r unig bwll gwerth yr enw am filltiroedd, a byddai plant y pentre'n mynd yno i ymdrochi.

Roedd yn hanfodol bwysig i bob pentref i gael dŵr glân, ac roedd pwmp dŵr yn Bow Street ar ochr y ffordd ble saif fflatiau Tregerddan erbyn hyn. Pan dynnwyd y pwmp adeg adeiladu'r fflatiau fe gafodd Mr Herbert Morgan, Caer Villa, y pwmp a bu'n ei gadw yng ngardd flaen y tŷ am flynyddoedd lawer. Roedd pwmp tebyg i'w gael ger Hafle, Penrhiw, ac mae pwmp tebyg i'w weld yn Llandre, ar bwys Bronberllan.

Roedd rhaglen deledu'n ddiweddar yn sôn am bwysigrwydd 'ardaloedd glas' (*blue spaces*) o ran iechyd meddyliol a chorfforol. Mae bod ar bwys glan y môr, afon, llyn neu ffynnon yn gwneud lles mawr i ni. Mae medru cerdded ar hyd y prom yn Aberystwyth neu'r Borth, neu ar hyd glan afon Rheidol wedi dod yn rhan o batrwm bob dydd nifer fawr ohonom."

(Maria Owen, gyda diolch arbennig i Iwan Davies am ei atgofion gwerthfawr.)


City & Guilds citb Gas Safe

CONTRACTWYR
**Pris Teg. Fair Price.**
CONTRACTORS

**Adnewyddu (tu fewn a thu allan i'r tŷ) ● Plymio a gwresogi (olew a nwy) ● Garddio a thirlunio ● Picedwr ceirios a gweithredwr i'w llogi (estyn I 9 medr)**

*Un galwad i ddatrys y cwbl. Gwaith o ansawdd am bris teg.*

Cysylltwch â Jac ar – 07933603131

neu trwy e-bost – jacbonner@gmail.com

Prisiau yn cychwyn o £20 yr awr. Amcangyfrifon am ddim trwy e-bost a whatsapp





STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
**Storfa Cartref a Busnes**



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk



Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

# PENRHYN-COCH

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Dr Derryan Paul, gynt o Nant Seilo, fu farw ar 8 Chwefror yng Nghartref Plas Cwmcynfelyn yn 82 oed. Cyn ymddeol fe ddarlithai Dr Paul ar waith archifau yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru; roedd yn awdur nifer o lyfryddiaethau, llyfrau ac erthyglau am hanes lleol yng Ngheredigion a Swydd Henffordd yn cynnwys *Why so few? : rebuilding country churches in Herefordshire, 1662-1762*. Leicester : The Friends of the Centre for English Local History 2005.. Roedd wedi dysgu Cymraeg ac fe ddioddefodd o ME am flynyddoedd. Bu'n ysgrifennydd effeithiol i Grwp ME Canolbarth a Gorllewin Cymru tan y daeth i ben yn 2013. Roedd wedi dysgu Cymraeg. a bu'n gweithio gyda Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Musicfest Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Swydd newydd**
Wrth longyfarch Dr Gareth Lanagan, Y Ddôl Fach, ar ei benodiad fel Ymgynghorydd Her ALl ar gyfer Ysgolion Uwchradd yng Ngheredigion dymunwn y gorau iddo ef, Rhian a'u mab bach Gruff yn eu cartref newydd yn Llanfihangel-y-creuddyn.





**Cylch Meithrin Trefeurig**
Mae gan Gylch Meithrin Trefeurig sesiynau ar gael i blant ar ôl gwyliau'r Pasg. Os hoffech chi archebu unrhyw sesiynau, cysylltwch â ni gan fod lleoedd yn llenwi. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 07527035190 neu e-bostiwch cmtrefeurig@gmail.com. Yma gwelir nhw yn dathlu Gŵyl Ddewi

**Llan Llanast Penrhyn-Coch**
Er gwaethaf y cloi yn sgil Covid-19 mae Llan Llanast Penrhyn-coch wedi cadw ati ac yn cwrdd yn fisol drwy ddefnyddio

## Eisteddfod T yn cyhoeddi cystadlaethau celf newydd er cof am y cartwnydd Cen Williams

Ar Ddiwrnod y Llyfr (4 Mawrth 2021) cyhoeddodd yr Urdd fod dwy gystadleuaeth newydd yn ymddangos yn y Rhestr Testunau eleni er cof am y diweddar Cen Williams, y cartwnydd, gyda'r gobaith o annog y genhedlaeth nesaf i roi pensel ar bapur, neu frwsh ar gynfas.

Cyflwynir y ddwy gystadleuaeth newydd gyda chefnogaeth teulu Cen Williams, ac fe'u datblygwyd gyda chymorth y darlunydd Huw Aaron. Fel rhan o'r wobr, bydd Huw Aaron yn cynnal sesiynau mentora gyda'r enillwyr er mwyn datblygu'r syniadau ymhellach, cyn cyhoeddi'r gweithiau terfynol yng nghylchgronau'r Urdd. Mae gofyn i blant oed cynradd ddyfeisio cymeriad cartŵn gwreiddiol, a darlunwyr Bl.7-9 i greu tudalen o gomic gyda



chymeriad/au.

Magwyd Cen Williams ym mhentref Gwalchmai, Ynys Môn, a bu'n byw yng Nghaerdydd ers ei ddyddiau coleg. Yn rhinwedd ei waith creadigol, roedd yn mwynhau cynnal gweithdai celf i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Roedd hefyd yn hynod weithgar gyda Cardiff Pottery Workshops Foundation a phapur newydd *Y Dinesydd* yng Nghaerdydd.

Meddai ei nith Elin Williams: "Fel un a'i ddawn a'i ymroddiad bob amser yn y byd creadigol, braint o'r mwyaf i ni fel teulu ydi cyflwyno'r gwobrau hyn er cof am un mor annwyl. Roedd Cen wrth ei fodd yn gweld eraill yn ymddiddori mewn celf gan annog talent ifanc. Roedd yr Urdd a'r Eisteddfod yn benodol yn ganolog i fywyd Cen a bydd y ddwy gystadleuaeth yma'n gyfle i genhedlaeth nesaf o arlunwyr i barhau i ymddiddori mewn celf ac yn goffa da ohono."

"Mae cylchgronau a phapurau newydd yn gweld gwerth cartwnau a chomics fel modd o gyfleu stori neu newyddion mewn ffordd hwyliog a chraff, ond efallai ein bod ni yng Nghymru wedi bod braidd yn araf i'w gofleidio," meddai beirniad y cystadlaethau, Huw Aaron. "Roedd cartwnau Cen yn llyfrau fy mhlentyndod yn sbardun creadigol imi, a'i waith yng nghylchgrawn *Golwg* gyda'r gorau. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at gael beirniadu'r ddwy gystadleuaeth hon, a bod yn dyst i ddychymyg a thalentau darlunwyr y dyfodol."

Meddai Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd, Siân Eirian: "Mae gan sawl un ohonom edmygedd mawr at grefft y cartwnydd, ac roedd Cen Williams gyda'r gorau yn ei faes. Y bwriad yw sefydlu'r ddwy gystadleuaeth yn Rhestr Testunau Eisteddfodau'r Urdd i'r dyfodol er mwyn cynnig platfform i feithrin ac annog darlunwyr ifanc."

meddalwedd Zoom. Eglwys S. Ioan a Chapel Horeb sy'n trefnu'r gweithgareddau. Oherwydd ei bod ni'n cyfarfod dros y we mae'r cyfarfodydd erbyn hyn yn agored i bawb sydd am ymuno.

Fel arfer dyn ni'n cwrdd am 4.15pm ar drydydd dydd Mawrth pob mis. Byddwn yn dod at ein gilydd yn blant ac yn oedolion i ddysgu mwy am gariad Duw wrth chwarae, gwneud crefftau, gwrando ar stori, dathlu a bwyta gyda'n gilydd. Gn ei bod hi'n Ŵyl y Pasg ddechrau mis Ebrill byddwn ni'n cwrdd ar y dydd Sadwrn cyn y Pasg, 3 Ebrill, am 10.30 fis nesa. Croeso ichi ymuno gyda ni.

Os ydych chi am ymuno cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Dafis (01970 820162) neu gyda Mrs Wendy Reynolds (01970 8201240). Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn Llan Llanast fis Chwefror roedden ni'n dysgu mwy am hanes Iesu yn y Beibl. Yn ei gariad fe wnaeth e iacháu merch fach Jairus oedd wedi bod yn sâl iawn. Fe wnaeth e droi tristwch ei theulu yn llawenydd mawr. Diolch Iesu!

**PATRASA - Pwyllgor Parc Penrhyn-coch**
**Holidaur offer yn lle'r ffrâm ddringo**

Er fod y Parc wedi bod ar gau am gyfnod cyn ail-agor ers sawl mis bellach gyda phawb yn cadw at y cyfyngiadau sydd wedi ei rhoi i ni oherwydd Cofid rydym yn dal wedi bod yn brysur ac oherwydd oedran a chyflwr ambell i ddarn o offer, bydd yn rhaid eleni dynnu'r ffrâm ddringo oddi yno. Hefyd mae y sleid plant bach yn dangos ei hoedran. Dyma felly y cyfle i newid rhywfaint ar y cyfleusterau. Mae PATRASA wedi darparu holiadur syml ar gyfer gwneud ceisiadau ariannol ar eu tudalen Facebook i gael barn trigolion y pentref am welliannau yn lle y ddau ddarn yma.

Mae nifer fawr eisioes wedi llenwi yr holiadur a diolch i chi am eich barn, ond





Elen, Penrhyn-coch



Jenna, Capel Bangor



Enid a Mirain, Llanfihangel Genau'r-glyn

os oes rhywun nad sydd ar Facebook am wneud sylwadau ar beth i gynnig yn lle y ffrâm ddringo a'r sleid bach yna cysylltwch gyda Clare, y cadeirydd ar e-bost PATRASA - patrasa339@gmail.com neu ffoniwch Clare am gopi caled o'r holiadur ar 07922 360813.

Cofiwch ein bod wastad yn barod i wrando ar eich syniadau a sylwadau am bethau eraill hefyd, gan mai dyma eich Parc chi sydd yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ffion a Ioan, Llety Llwyd, Tal-y-bont, ar enedigaeth mab - Madog- ar Chwefror 19. Brawd bach i Hedydd a ŵyr i Sandra a Mansel Beechey, Y Felin.

**Cyhoeddi dyddiad**

Cyhoeddodd Clwb Pêl Droed Iau Penrhyn-coch ddyddiad newydd ar gyfer Twrnament Iau Eric ac Arthur Thomas 2021, sef y 17eg a'r 18fed o Orffennaf.
Yn amlwg, mae hyn yn ddibynnol ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a chaniatâd y CWFA.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Lynne Jones, Glanseilo, Penrhyn-coch, ar golli ei ffrind a'i chymar Graham Paul Cook, Llanrhystud, ar 2 Mawrth yn 69 oed ar ôl salwch byr. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 11 Mawrth.

**Eglwys S. Ioan Penrhyn-Coch**
**(Plwyf Bro Padarn)**

Dyma fanylion gwasanaethau a digwyddiadau'r Wythnos Fawr. Cynhelir yr holl weithgareddau ar-lein gan defnyddio meddalwedd Zoom. Am ragor fanylion ar sut i ymuno cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Dafis (01970 820162; lyndafis@gmail.com). Croeso cynnes i bawb.

Sul y Blodau 28 Mawrth
11.00am Boreol Weddi (Saesneg)
3.00pm Hwyrol Weddi (Cymraeg)
Dydd Iau Cablyd 1 Ebrill
11.00am Gwasanaeth dwyieithog

Dydd Gwener y Groglith 2 Ebrill
12.00pm Gwasanaeth Saesneg
3.00pm Gwasanaeth Cymraeg

Dydd Sadwrn Sanctaidd 3 Ebrill
10.30am Llan Llanast gyda chyfle i gymdeithasu a rhannu byns y groes dros baned i ddilyn am 11.330am

Dydd y Pasg 4 Ebrill
11.00am Cymun Bendigaid (Saesneg)
3.00pm Cymun Bendigaid (Cymraeg)

Ddydd y Pasg 4 Ebrill cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am 3.00pm gyda'r Canon Andrew Loat yn llywyddu.

**Sul y Pasg**

Dydd Sul y Pasg 4 Ebrill cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am 3.00pm gyda'r Canon Andrew Loat yn llywyddu.

Eglwys S. Mathew, y Borth
Bydd yr Eglwys yn ail-agor ddydd y Pasg gyda gwasanaeth y Cymun am 11.00am gyda'r Canon Philip Wyn Davies yn llywydd.

**Coffi a Chwis Penrhyn-coch**

Roedd y bore coffi dydd Mawrth yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch wedi dod yn rhan naturiol o fywyd i lawer o drigolion y pentref. Cyfle am baned a sgwrs a blasu cacennau hyfryd Mrs Edwina Davies. Ond fel pob peth arall bu'n rhaid dirwyn y bore coffi i ben fis Mawrth 2020. Ond ers haf llynedd mae'r bore coffi wedi dechrau ail-gyfarfod ar ffurf Coffi a chwis ar-lein yn defnyddio meddalwedd Zoom. Daw pawb â'i baned yn barod i gwrdd â chyfeillion ac i gymryd rhan mewn cwis. Does neb yn cymryd y peth ormod o

## pathad ... PENRHYN-COCH

ddifrif ac mae'n gyfle am awr fer o saib. Mae'n fwriad parhau â'r Coffi a chwis hyd nes bod y cloi wedi dod i ben. Felly mae croeso ichi ymuno. Dyn ni'n cwrdd ar am 10.00am ar ddydd Mawrth cyntaf, trydydd a phumed o bob mis. Os ydych chi am ymuno cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Dafis (lyndafis@gmail.com; 01970 820162). Mae hwn yn ddigwyddiad dwyieithog.

Dyma bump o gwestiynau i godi'ch archwaeth am fwy. Diolch i Mr Glyn Collins, Ger-y-llan am eu llunio.

1. Beth oedd swydd Mark Drakeford cyn iddo gael ei ethol i'r Senedd (Cynulliad Cenedlaethol)
2. Beth oedd gwerth grôt?
3. Beth yw blodyn cenedlaethol Japan?
4. Beth yw enw arian India?
5. Beth yw aderyn lleiaf Cymru?



Llun: Francis C. Franklin / CC-BY-SA-3.0

ATEBION
1. Athro prifysgol
2. 4d (llai na 2 geiniog ddegol)
3. Ffarwél haf (Chrysanthemum)
4. Rupee
5. Eurben neu Drwy melyn cribog (Goldcrest)

## Ennill cystadleuaeth Americanaidd



Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi lansiwyd cystadleuaeth newydd eleni i gantorion ifanc gan Gymdeithas Gymreig Gogledd America (WNAA) mewn partneriaeth gydag Undeb Cymru a'r Byd. Cystadleuaeth yn y Gymraeg oedd hon ac yn agored i bobl ifainc rhwng 7-11 a 12-16. Yn ôl Dr Megan Williams, Ysgrifennydd y Gymdeithas, roedd pawb wedi gwirioni bod cymaint o ddiddordeb yn y gystadleuaeth newydd sbon a gobeithiant ei hail-gynnig y flwyddyn nesa. Pa gwell ffordd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi nag i roi llwyfan i'r talent ifanc yng Nghymru ac i'w dangos i bobl yn America ac ar draws y byd. Yn y gorffennol mae'r WNAA wedi cynnal Eisteddfod yng Ngŵyl Flynyddol Cymry Gogledd America ac mae'r gystadleuaeth newydd hon yn estyniad o'r traddodiad hwn.

Roedd y beirniaid, Edward Morus Jones, Mary Jones McGuyver ac Elen Wyn Keen, wrth eu boddau bod cynifer wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth newydd a chyffrous hon. Roedd safon y cystadlu yn codi calon a'r caneuon a ddewiswyd yn amrywiol iawn – a hynny'n gwneud gwaith y beiriniaid yn fwy anodd.

Llongyfarchiadau i Owen Jac Roberts, Aberystwyth ddaeth yn ail yn yr Adran 12-16. Bu fideos o'r enillwyr yn rhan o raglen y WNAA ar Ddydd Gŵyl Ddewi.




**Brownis Penrhyn-coch yn dathlu Gwyl Ddewi gyda crefft Ruth Jen, Y Ladi Gymreig – roeddynt wedi mwynhau y weithgaredd yn fawr iawn.**

## Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor trwy gyfrwng Zoom nos Iau Chwefror 18 gyda'r cadeirydd Richard Edwards yn y gadair. Roedd y cynghorwyr cymuned i gyd yn bresennol a hefyd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf - sef mis Ionawr 2021 - fel rhai cywir.

Dim ond un cais cynllunio oedd wedi dod I sylw y Cyngor sef:-

A210039 - Cragfryn. Pisgah, Aberystwyth. Nid oedd gwrthwynebiad.

Yn dilyn y ceisiadau a dderbyniwyd am rodd ariannol eleni penderfynwyd i gefnogi y canlynol;

Sioe Capel Bangor a'r Cylch, Y Tincer, Y Ddolen, Cylch Meithrin Pen-llwyn, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen-llwyn, Clwb y Caban Ysgol Pen-llwyn, Ysgol Sul Pen-llwyn, Merched y Wawr Melindwr, Radio Bron-glais, Beiciau Gwaed, Cyngor ar Bopeth Ceredigion, Ambiwlans Awyr Cymru a'r Urdd.

Mae y Cyngor Cymuned wedi amnewid y Gorchudd Bws ar yr A44 ger Fferm Tyllwyd ac erbyn hyn mae yr un newydd yn ei le.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor; mae angen rhywun i gynrychioli ardal Goginan. Os oes gan rhywun o'r gymuned ddiddordeb i fod yn gynghorydd bro cysylltwch â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor) neu un o'r Cynghorwyr am rhagor o wybodaeth.

Oherwydd bod y cyfyngiadau Covid yn dal bydd rhaid unwaith eto gynnal y cyfarfod nesaf, nos Iau Mawrth 18fed am 7.30yh, trwy gyfrwng Zoom.

# Gwaith adfer ar Gors Fochno yn dangos canlyniadau calonogol

Mae gwaith adfer hanfodol gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn mynd yn ei flaen ar Gors Fochno, sydd yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi, dros yr hydref a gaeaf, ac mae'r canlyniadau yn ymddangos yn gadarnhaol hyd yn hyn.

Yn y DU mae 94% o gyforgorsydd tir isel wedi eu colli, nod Prosiect Adfywio Cyforgorsydd Cymru LIFE yw diogelu'r cynefin prin yma trwy wella statws saith o'r esiamplau gorau yng Nghymru, ac mae Cors Fochno yn un o'r rhain.

Mae'r safle yn bwysig yn genedlaethol ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Safle amgylcheddol sensitif yw Cors Fochno sydd wedi'u diogelu gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd oherwydd eu budd amgylcheddol.

**Gwaith adfer yn defnyddio dull unigryw**

Dechreuodd y gwaith ym mis Medi 2020, nod y dull weddol newydd yma yw arafu'r broses o golli dŵr yn haen uchaf cromen y gyforgors, gan ddal lefel naturiol y dŵr ar y gors am amser hirach.

Crëwyd dros 12,875 metr (8 milltir) o fyndiau mawn ar Cors Fochno hyd yn hyn ac mae'r gwaith dal yn mynd yn ei flaen.

Mae'r byndiau, neu'r cloddiau mawn isel fel y'u gelwir hefyd, tua 25cm o uchder ac yn dilyn cyfuchliniau naturiol cromenni'r gyforgors.

Ychydig fisoedd ar ôl dechrau'r gwaith, ceir arwyddion calonogol bod lefel dŵr mwy naturiol yn dechrau ffurfio (gweler y delweddau).

Dywedodd Patrick Green, Rheolwr Prosiect LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru: "Rydym wrth ein bodd gyda'r effaith y mae'r byndiau wedi'u cael ar y safle mewn cyfnod mor fyr."

"Gwyddom fod y safleoedd hyn wedi dioddef oherwydd gwaith draenio a thorri



mawn yn y gorffennol, sydd wedi effeithio ar y lefel trwythiad fel ei bod yn is na'r hyn y dylai fod mewn cyforgors iach – yn enwedig yn yr haf."

Bydd adfer lefelau dŵr naturiol ar y gyforgors yn sicrhau eu bod yn aros yn wlypach am amser hirach, gan helpu i greu ardaloedd lle gall migwyn pwysig sefydlu a ffynnu.

Migwyn yw peiriannydd cynefin y gyforgors, a'i allu i dal dwr a gwrthsefyll pydredd, sydd yn creu pridd mawn brown tywyll.

Mae amrywiaeth o fathau o figwyn yn arwydd o gors iach, ac mae'r mawn y mae'n ei greu yn amsugno ac yn storio tunelli o garbon o'r atmosffer yn naturiol, gan helpu yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Bydd canlyniadau gwyddonol ffurfiol gan gynnwys data hydrolegol am y gwaith yma ar gael diwedd y flwyddyn.

**Torri a thrin coed sydd yn sychu'r gyforgors**

Ar yr un pryd mae'r prosiect yn wedi bod yn cael gwared ar brysgwydd (coed bach) wedi'u gwasgaru ar draws y gyforgors. Mae prysgwydd goresgynnol wedi ennill tir ar Gors Fochno wrth i'r safle fynd yn sychach.

Mae'r gwaith o drin prysgwydd gwasgaredig wedi bod yn mynd rhagddo ar draws ardal o 354 hectar (875 erw) ar Gors Fochno dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phrysgwydd trwchus wedi'u tynnu dros 5 hectar (12 erw) eleni.

Bydd y gwaith yn parhau ar rannau newydd o'r safle, a bydd gwaith i ail-drin prysgwydd a rhododendron a gafodd eu trin yn y gorffennol hefyd yn cael ei wneud.

Oeddech chi'n gwybod gall coed amsugno hyd at 100 galwyn o ddŵr y dydd? Mae hynny'n cyfateb i ychydig dros ddau faddon! Mae hyn yn sychu'r gors ac yn atal migwyn pwysig rhag tyfu.

Mae'r dull o drin y coed bach yn cynnwys torri boncyffion ac wedyn chwistrellu chwynladdwr cymeradwy i mewn i'r cyff.

Mae chwistrellu'r cyff yn golygu drilio twll yng nghyff neu fonyn coeden sydd wedi'i thargedu a chwistrellu neu osod capsiwl â chwynladdwr yn y cyff neu'r bonyn. Mae hyn yn rhyddhau'r chwynladdwr yn araf iawn, a thros nifer o flynyddoedd mae'r cyff neu'r bonyn yn edwino ac yn pydru.

Bydd tynnu a thrin coed sy'n tyfu ar y corsydd ac yn agos atynt yn helpu i annog mwsoglau pwysig y corsydd hyn i dyfu, gan helpu i gadw'r corsydd yn wlyb ac yn sbyngaidd a'u hadfer i'w cyflwr naturiol.

Pan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu bydd y prosiect yn gwahodd cymdogion a phartïon eraill â diddordeb i ymweld â'r safle gwych yma i weld a thrafod y gwaith sydd wedi bod yn digwydd.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adfer, ewch i'n tudalen Facebook @Cyforgorsydd CymruWelshRaisedBogs neu'r dudalen Twitter @Welshraisedbog

**Dana Thomas**, Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu LIFE



# Y CARDIS YN CYNNIG BARGEN

Anaml fyddwch hi'n clywed fod y Cardis yn cynnig bargen ond pan mae'n digwydd mae angen manteisio arno. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar am ohirio Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion tan fist Awst 2022 mae'r pwyllgor profiad ymwelwyr am wneud cynnig arbennig ar nwyddau oedd eisoes wedi eu cynhyrchu ar gyfer y brifwyl.

Gwelodd y nwyddau olau dydd yn wreiddiol yn yr wyl gyhoeddi yn 2019 ond ers hynny, ac yn sgil effaith Covid-19 mae'r Eisteddfod wedi ei gohirio ddwywaith a'r gobaith erbyn hyn yw y caiff ei chynnal yn Nhregaron yn 2022.

O ganlyniad mae'r nwyddau bellach yn cael eu ystyried fel rhai go unigryw gyda'r dyddiad 2020 arnynt ac maent ar gael nawr am bris gostyngol am gyfnod yn ôl cadeirydd y pwyllgor profiad ymwelwyr, Deina Hockenhull,

"Mae'r nwyddau a gynhyrchwyd wedi profi yn hynod boblogaidd mor belled ond mae'r pandemig yn anffodus wedi golygu na chawsom y cyfleoedd cyflawn i'w gwerthu wrth i ni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod yn 2020.

"Mae hwn yn gyfle felly i chi gael gafael ar dalp bach o hanes a hynny am bris rhesymol – a chefnogi'r Eisteddfod ar yr un pryd.

"A gai bwysleisio mai dyma'r tro olaf fydd y Cardis yn cynnig bargen cystal!"

Mae hwdis a chrysau–t ar gael i blant ac oedolion gyda'r prisiau yn cychwyn ar £2.50 am grys – t plentyn i £10 am hwdi oedolyn – bargen heb ei ail.

Mae'r cynnig hwn ar gael am gyfnod penodol yn unig felly manteisiwch ar y cyfle yn fuan.

Os hoffech archebu cysylltwch â Nia ar niawynmaesglas@gmail.com neu ffoniwch



01570 480015 neu 07968 223653.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron o 30 Gorffeeannf - 6 Awst 2022. Am fwy o wybodaeth ewch ar-lein, www.eisteddfod.cymru.

# Cyfnod Cyffrous i Glwb y Piod

Yn ystod y mis, mae Clwb Pêl-droed Bow Street wedi cyhoeddi bod rheolwr y tîm cyntaf, Barry Williams, wedi rhoi'r gorau i'r swydd wedi cyfnod o bum mlynedd. Mae Barry wedi bod yn ymwneud â hyfforddi o fewn y clwb ers 18 tymor yn ddi-dor – 10 gyda'r rhai iau, 3 gyda'r ail dim a 5 gyda'r tîm cyntaf. Teimla ei bod hi'n bryd cael seibiant – ar lefel bersonol, ac er mwyn cael gwaed newydd i'r clwb.

'Mae wedi bod yn fraint cael chwarae a rheoli'r clwb ardderchog yma. Mae gen i lu o atgofion hapus o'm hamser gyda'r clwb, yn arbennig wrth weld chwaraewyr yn datblygu o rengoedd y tîm iau i'r tîm cyntaf. Mae angen i ni i gyd, yn chwaraewyr a swyddogion, werthfawrogi beth sydd gennym yn Bow Street, a'i fwynhau.'

Dywedodd Wyn Lewis, y cadeirydd, 'Ro'n i'n drist o glywed bod Barry am roi'r gorau i'w swydd ond deallaf ei resymau'n iawn. Bu'n benderfyniad anodd iddo. Hoffwn, ar ran pawb sy'n ymwneud â'r clwb, ddiolch i Barry a'i deulu am eu cyfraniad a'u hymroddiad enfawr dros nifer o flynyddoedd. Cafwyd adegau da ac adegau gwael – dyna natur y gamp – ond un uchafbwynt amlwg oedd ennill Cwpan Cynghrair Canolbarth Cymru yng Ngharno ym Mai 2018, ond bydd gan Barry ac Ann nifer o atgofion anhygoel o'r 18 mlynedd diwethaf. Mae Barry'n uchel ei barch o fewn y clwb ac o fewn y gymuned; gobeithio y bydd modd iddo barhau i gyfrannu at waith y Piod mewn rhyw ffordd yn y dyfodol. Diolch, Barry.'

Wrth i'r clwb ffarwelio â Barry, daw'r newyddion cyffrous am groesawu Llyr Hughes yn rheolwr y tîm cyntaf. Mae Llyr, sy'n byw yn Bow Street, wedi chwarae i'r Piod ers 4 blynedd a bu'n gynorthwydd i Barry am y ddau dymor diwethaf. Enillodd gapiau dros Cymru tra oedd yn ddisgybl yn Ysgol Pen-glais, a bu'n chwarae ar lefel uwch i dimau Penparcau, Aberystwyth, y Bermo a Phenrhyn-coch lle bu hefyd yn gapten am gyfnod. Cyn ymuno â Bow Street bu'n rheolwr-chwaraewr yn y Bermo.

'Dwi'n teimlo'n freintiedig iawn o gael cynnig swydd y rheolwr yn Bow Street,' meddai Llyr. 'Bydd yn anodd dilyn ôl troed Barry, ac ro'n i'n falch o gael cydweithio ag e dros y tymor neu ddau ddiwethaf. Mae trefn arbennig gan y Piod a charfan dda o chwaraewyr, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr at arwain y clwb yn Lefel 3 y gynghrair newydd. Bydd yn her a bydd angen i ni weithio'n galed, ond dwi'n edrych ymlaen at y sialens.'

Ychwanegodd Wyn Lewis, y cadeirydd, 'Dwi wrth fy modd fod Llyr wedi derbyn swydd y rheolwr. Yn fy marn i, fe oedd y dewis amlwg i arwain y Piod y tymor nesaf; bydd y Lefel 3 newydd yn her newydd a chyffrous i'r clwb. Mae gan Llyr gyfoeth o brofiad wrth chwarae ac wrth reoli. Mae pawb o fewn y clwb yn ei barchu ac ry'n ni'n hyderus bod Llyr yn mynd i fod yn rheolwr llwyddiannus dros ben.'

y lolfa
Talybont, Ceredigion SY24 5HE

Yn sgil ehangu, rydym yn chwilio am

**Reolwr Warws**

i gadw trefn ar ein stoc lyfrau. Dyddiad cau 22 Mawrth.
Manylion llawn gan Garmon Gruffudd
ar garmon@ylolfa.com neu ffoniwch 01970 832 304.

Y Lolfa Cyf., argraffwyr a chyhoeddwyr
**www.ylolfa.com**

# LLANDRE

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Llio a Penri James, Gwyniarth, Tai Gwynion ar enedigaeth wyres ar 3 Mawrth; ganwyd merch fach - Betsan Alaw - i Osian ac Erwain James; gor-wyres i Gwenda ac Erddyn James, Lluarth.

**Sul y Pasg**
Dydd Sul y Pasg 4 Ebrill cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am 3.00pm gyda'r Canon Andrew Loat yn llywyddu.

**Croeso adref**
Roedd Tincer mis Chwefror newydd fynd i'r Lolfa pan glywyd fod Wynne Melville Jones, y Berllan, yn Ysbyty Bron-glais lle bu am dair wythnos. Da deall ei fod bellach adref. Dymunwn lwyr wellhad iddo yn fuan.

Llun: Vaughan Griffiths



Llun: Tad Olewicz



**Roedd trigolion Llandre yn dechrau meddwl fod gorsaf newydd yn dod yno hefyd – yn dilyn ail-agor un Bow Street. Ond buan y cafwyd ar ddeall mai gweithwyr yn cynnal a chadw y rheilffordd oedd wrthi.**

**Gerddi Genau'r-glyn**
Ffurfiodd criw bach o wirfoddolwyr y grwp Gerddi Genau'r-glyn; mae croeso i unrhyw un ymuno. Cafwyd caniatad gan Gyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio y tir o flaen y cyrtiau tennis- o amgylch y fainc. Cawsant becyn dechreuwyr Cadwch Gymru'n Daclus, yn llawn o blanhigion hyfryd bwytadwy a hadau blodau gwyllt.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Annette a Justin a'r teulu, Coedgruffydd, ar farwolaeth Clifford Williamson, tad Annette ym Mont-goch.

# Capel y Tabernacl, Cwmsymlog

Tynnwyd y lluniau yma o hen Gapel y Tabernacl, Cwmsymlog gan Barry Eveleigh o Gorris sydd wedi cymryd diddordeb mawr yng nghapeli ac eglwysi Cymru ers iddo symud o ganolbarth Lloegr rai blynyddoedd nôl.

Bellach mae yn cydweithio gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar ddiweddaru eu cronfa ddata o hen gapeli Cymru ac yn ogystal a thynnu lluniau mae wrth ei fodd yn casglu hanesion rhai arferai fynychu yr adeiladau hyn.

Yn 2018 enillodd Barry Eveleigh wobr am ei waith gyda'r Comisiwn ac roedd arddangosfa o'i eiddo yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy a'r cyffiniau yn Llanrwst 2019. Dylai arddangosfa fod wedi bod ym MOMA Machynlleth ac orielau eraill Cymru – gwyliwch y gofod am honno yn y dyfodol yn dilyn diwedd y cloi.

Mae modd prynu copïau o'r ffotograffau hyn – gellir cysylltu gyda Barry Eveleigh trwy ei wefan https://www.eveleighphotography.net neu trwy'r golygydd.

Oeddych chi yn arfer mynychu y Tabernacl – beth am yrru eich atgofion i'r Tincer.



Llun gan y perchennog (Haf 2020)





Lluniau: Barry Eveleigh

# BOW STREET

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Meinir Evans, Llanrhystud, ddathlodd ei phen blwydd yn 40 ar Fawrth 11 a'r Parchg Richard Lewis, Maes Ceiro, fydd yn dathlu pen blwydd yn 70 ar Ebrill 11.

**Mis Bach yng Nghapel y Garn**
Mae oedfaon rhithiol yr Ofalaeth ar foreau Sul wedi tyfu'n arfer derbyniol i'n cadw mewn cysylltiad â'n gilydd. Ein gweinidog, Dr Watcyn James, fu'n arwain ein haddoliad ar dri Sul cyntaf y mis, ac estynnwyd croeso i'r Dr Rhidian Griffiths atom i dywys ein meddyliau ar y Sul olaf cyn Gŵyl Ddewi.

Daeth Mrs Hazel Walford Davies i gyfarfod y Gymdeithas Lenyddol ar Chwefror 19eg i rannu a manylu ar y wybodaeth newydd sydd wedi ei datgelu yn y bywgraffiad o Syr Owen M Edwards a gyhoeddwyd ganddi y llynedd.

Mae mynychwyr Paned a Chlonc ar foreau Mercher wedi cael amrywiaeth ddiddorol. Dechreuwyd y mis gyda chyflwyniad Ina Tudno Williams am barchu pobl wahanol, yn dilyn hynny ar Chwefror 10 cawsom atgofion difyr Myfanwy Rowlands, Rehoboth, am ei magwraeth yn y Creunant, Cwm Nedd; ar y 17fed cyflwynodd Dilys Jones ragor o hanes swynol beirdd Tirwedd Tregaron, y tro yma W J Griffith a John Roderick Rees oedd yn cael ei sylw, gyda John Jones yn darllen eu geiriau; ar Chwefror 24 sgyrsio a rhannu atgofion (a chyfrinachau!) am brofiadau tra'n teithio roddodd wên ar ein hwynebau.

Byddai hi wedi bod yn go llwm arnom yn ystod misoedd y gaeaf heb y cyfleoedd yma i weld wynebau a chlywed lleisiau'n gilydd; mae ein diolch yn fawr iawn i'r rhai fu'n gyfrifol am drefnu.

**Newid ardal**
Dymuniadau gorau i Ifor a Jane Morgan, Garn Rhos sydd wedi symud i Dal-y-bont yn ddiweddar.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Alun Morgan a Lisa Rowlands ar enedigaeth merch fach – Olive Rosalie – ar Chwefror 9fed. Pob dymuniad i'r teulu bach yn eu cartref ym Mlaen-plwyf.

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i Emyr Morgan, Llys Alaw, ar ennill radio neu seinydd clyfar mewn cystadleuaeth ar raglen Aled Hughes ddiwedd Chwefror.

**Ar Wella**
Mae'n hyfryd medru nodi bod Mrs Jean Davies, 38 Maes Ceiro, yn gwella'n raddol ar ôl bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei phen-glin. Daliwch ati Jean.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Lorraine Moore a'r teulu, 18 Maes Ceiro, ar farwolaeth Peter ar yr 17eg o Chwefror.

**Merched y Wawr**
Gyda'r cyhoeddiad na fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal eleni ychwaith cofiwch bod ganddom tan fis Hydref i ddal ati i wau Blodau Gobaith. Cofiwch hefyd am gystadlaethau'r Ŵyl Haf. Er nad ydym yn cyfarfod fel cangen ar hyn o bryd y mae'r hyn sydd yn cael ei drefnu gan y Mudiad yn rhanbarthol a chenedlaethol trwy gyfrwng Zoom yn rhyfeddol. Cafwyd Pwyllgor Rhanbarth diddorol iawn ddechrau'r mis ac yna ar Ddiwrnod y Llyfr cafwyd dau gyfarfod arbennig iawn. Yn y cyntaf yr oedd Bethan Gwanas yn cael ei holi gan Geunor Roberts ac fel y gellid disgwyl cafwyd cyfarfod bywiog gyda Bethan fel awdur toreithog yn ein hannog i brynu llyfrau yn hytrach na'u pasio o law i law ac hefyd i wneud defnydd o lyfrgelloedd. Orig yng nghwmni Adam yn yr Ardd oedd yr ail gyfarfod a dyna braf oedd ei glywed yn dweud ei hanes yn rhannu ychydig o dips tymhorol. Yna ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched cawsom gyfle i glywed ein Sara Huws ni yn sôn am ei hanes, ei gwaith a'i gobeithion. Mae'n werth ymweld â gwefan Merched y Wawr o dro i dro



i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gyfarfodydd sydd ar gael. Diolch i Joyce am ddosbarthu'r *Wawr* unwaith eto. Cadwch yn ddiogel, Mair.

**Noddfa**
Diolch o galon i bawb fu'n arwain y Gyfeillach bob bore Sul yn ystod mis Chwefror. Bu'r themâu yn amrywiol a diddorol unwaith eto ac fe fuom hyd yn oed ar grwydr fwy nag unwaith gyda John yn mynd a ni i gopaon y Carneddau a'r Glyderau yn Nyffryn Ogwen ac yna Richard yn mynd a ni ar daith ddarluniadol ar drywydd Dewi Sant i Lanbadarn, Llan-non, Tyddewi, Caerdydd a hyd yn oed i Dirinon a Saint-Divy yn Llydaw.

Bore Sul y Pasg cynhelir oedfa gymun ar Zoom am 10.30. Os am ymuno cysyllter â Gareth William Jones.



**Llun gan Tony Moyes, Penrhyn-coch o'r briffordd ger Gogerddan ddiwedd Mai 2020 - cyn iddi gael ei lledu.**



**Cylch Meithrin Rhydypennau yn dathlu Diwrnod y Llyfr.**

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Trenau Bow Street gynt

Gyda agor gorsaf Bow Street, daw i'r cof enwau a roddid ar amseroedd rhai o drenau stem a redai gyda gwaelod y pentref. Trên Tatw oedd y trên 12 o'r gloch yn mynd lawr am Aberystwyth. Dyna yr amser i wragedd y tai i roi tatw ar y tân i ferwi. Trên Cinio oedd y trên yn pwffian i fyny am 12.30 o'r gloch tuag at Llandre. A Trên Swper oedd y trên a elwid Y Mail oedd yn gadael Aberystwyth am 6.35 yr hwyr. Ac yn grwt ysgol ar nos Sul yng Nghapel y Garn, disgwyliwn am sŵn byddarol Y Mail yn bwldagu i fyny ar waelod Cae Maelgwyn, gwyddwn nad oedd ond rhyw gwta 20 munud i ddisgwyl eto cyn i'r "Apostol Paul rhwng y pîn" dynnu'r gwasanaeth i fwcwl, a'n rhyddhau o garchar y seti caled!

Byddai plant yr ardal yn llafarganu rhyw rigwm Saesneg yn dynwared y trên yn siarad â'i hun wrth ddringo y "cutting" i fyny o Bont Rhydhir heibio Pwll Crwn at Royal Oak-

"I think I can- I think- I can- I think- I can." (yn araf).

Ac yna yn disgyn tuag at Y Fronfraith a Gelli Angharad -

"I knew I could I knew I could I knew I could" (yn gyflym).

Ar y ffordd fawr rhwng gwaelod y pentref a Phont Rhydhir, lle gosodwyd yr arwyddion mawr, adwaenwyd y rhan yma gan y pentrefwyr fel Coeden Mari, a Cae Mari tu draw i'r ffens. Mae perygl i ni golli yr enwau cynhenid hyn bellach. Ydy ni yn gofyn gormod i'r awdurdodau priodol dynnu yr enw Machynlleth o ben uchaf yr arwydd a gosod Coeden Mari yn ei le, gan roi cymeriad i'r arwydd a'r lle? Dim ond gofyn!



**Nant Clarach, Gwarchodfa Natur Pwll Crwn. Llun: Harri Lloyd.**

Ymlaen â'r trênau heddiw gan obeithio y byddant yn cadw i amser fel yr hen drenau stêm, pan oedd y pentrefwyr yn gosod eu clociau neu oriaduron wrth amser y trên!

**Vernon Jones**

# Canslo'r Pasg

Blwyddyn yn ôl i rŵan roedden ni ein dau yn sefyll yn un o archfarchnadoedd Aberystwyth. Wna i roi cliw i chi. Does dim o'r llythyren M nac S na T na C nac E yn enw'r siop. Edrych ar resi o wyau Pasg siocled oedden ni. Ac am ddewis! Dwsinau o wahanol fathau. Siocled tywyll, a siocled cyffredin a siocled gwyn. Rhai efo hanner yn wyn a hanner yn siocled tywyll. Rhai mawr, rhai bach, rhai drud, rhai efo llanwadau gwahanol.

A dyna oedd yr her gyntaf. I bwy oedden ni'n mynd i brynu'r wy? Ai dim ond i ŵyr bach teirblwydd oed? Neu beth am ychydig o hwyl a phrynu un i'r plant (sydd ddim yn blant mwyach). Neu beth am wy i rywun oedrannus? Bobol bach. Gallai'r ymdrech i ddewis wy Pasg orfodi heriau ariannol a threfniadol yn ogystal â dewisiadau moesol.

Moesol? Sut gall prynu wy Pasg fod yn ddewis moesol? Wel, rhaid oedd ateb y cwestiwn, 'Pa fath o wy ddylen ni ei ddewis?'

Ymhlith y rhesi o wyau siocled roedd rhai am ein sicrhau eu bod yn diogelu'r amgylchedd mewn gwledydd trofannol ac eraill eu bod yn cael eu cynhyrchu yn ôl safonau Masnach Deg.

Ond, meddde chi, mae siocled Masnach Deg yn ddrutach na'r cyffredin yn dydy?

Oedwch am foment i feddwl am oblygiadau'r hyn aeth drwy'n meddyliau. Wyddoch chi fod yna blant bach, yr un oedran â'r plant a'r wyrion yr ydych yn meddwl prynu wy Pasg iddynt yn gweithio mwy neu lai fel caethweision, am oriau meithion am geiniogau bob dydd. Led led y byd mae 115 miliwn o blant yn gweithio mewn amaeth caled heb gyfle i gael addysg, i wella eu byd na chael gofal meddygol sylfaenol. Mae'n ddiamau bod mwyafrif y siocled a fwytawn ym Mhrydain yn sicrhau y bydd cenedlaethau o blant yn wynebu caethiwed tlodi. Ond yn y siop honno sydd heb M nac S na T na C nac E yn ei enw mae wyau Pasg Marchnad Deg i'w cael am brisiau tebyg i'r brandiau mwy poblogaidd.

Ac yna, y llynedd oedd hyn cofiwch, wedi prynu'r wyau Pasg daeth y clo mawr cyntaf. A do, bu'r wyau'n eistedd (heb eu cyffwrdd) ar ben y piano am fisoedd hyd nes y cafwyd cyfle i weld wyrion a phlant yn yr haf.

Ac eleni? Be wnawn ni tybed? Wnawn ni ganslo'r Pasg eleni a pheidio â'i ddathlu gydag wy Pasg Masnach Deg?

Na wnawn wrth gwrs. Oherwydd, er mor dywyll fu'r flwyddyn ddiwethaf i fyd o 'dywyllwch' y daeth Goleuni'r Byd, Iesu Grist. Er mor fud y bu'r sêr a'r planedau i'n rhybuddio am y pla oedd ar fin ein llarpio ni thawelwyd addewid yr Arglwydd Iesu Grist mai, 'Myfi yw'r Atgyfodiad a'r bywyd.' Ac wrth i dechnoleg a meddygaeth gynnig brechlyn i'n hamddiffyn rhag effeithiau Cofid daw'r Un sy'n mynnu mai ef ei hun yw'r Ffordd, a'r Gwirionedd a'r Bywyd i gynnig cyfeiriad ac ystyr a Bywyd i ni wrth i ni gefnu ar ofid Cofid.

A sut y gwyddom fod ei eiriau yn wir?

Am fod yna groes wag, a bedd gwag, a buddugoliaeth a gobaith am i Iesu atgyfodi oddi wrth y meirw i fyw am byth.

Canslo'r Pasg. Ddim ffiars o beryg!

**Watcyn James**

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149
07980 687475

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*

*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# Colofn Enwau Lleoedd

Clwstwr bychan o dai yw *Penrhiwnewydd* yn gorwedd yn rhimyn hir ar y gefnen sy'n codi tua'r dwyrain o bentref Penrhyn-coch. Does dim byd yn hynod am yr enw: tair elfen, *pen*, *rhiw*, a *newydd*, a'u hystyr a'u harwyddocâd yn gwbl glir. Ond dwi bob amser wedi pendroni at ba *riw* y mae'r enw'n cyfeirio. Mae tri dewis amlwg: y rhiw sy'n codi'n raddol ar hyd y gefnen o Benrhyn-coch; yr un arbennig o serth o bentref Salem; neu'r llwybr trol sy'n codi ar letraws o Ben-bont Rhydybeddau ar draws Banc Ty'ngelli.




Map 6" yr Arolwg Ordnans 1906. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban

A minnau'n dechrau derbyn na fyddwn fyth yn datrys y dirgelwch, daeth yr ateb yn annisgwyl mewn cofnod ym mhapur newydd y *Cambrian News* ar 18 Mai 1906 (t.2; https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3409876/3409878/10). Yno, mewn adroddiad am gwest a gynhaliwyd yn ysgol Trefeurig i farwolaeth James Edwards, Bwlchydderwen, cofnodir yr enw *Troedrhiwnewydd*.

Mae'r cofnod yn disgrifio taith Elizabeth, gwraig James Edwards, pan aeth allan yng nghanol nos i geisio cymorth ei chymdogion at ei gŵr claf. Aeth yn gyntaf i Ben-bont, ac yna yn ei blaen i'r Llwyn ar gyrion Cwmerfyn, cyn dychwelyd i lawr y cwm i *Droedrhiwnewydd*. Ar ei ffordd yn ôl o'r fan honno i Fwlchydderwen, galwodd David James, Ty'ngelli, arni beth oedd o'i le. Awgryma hynny, ynghyd â lleoliad hysbys *Penrhiwnewydd*, bod *Troedrhiwnewydd* o bosibl rywle yng nghyffiniau Pengeulan neu Fronheulwen. Ategir y lleoliad bras hwnnw yng Nghyfrifiad 1901 lle rhestrir '*Troedrhywnewydd*' rhwng Glanrafon a Bronfeurig ar un llaw a Thy'ngelli a Llechwedd-hen ar y llall. Ond gan fod y Cyfrifiad hwnnw yn enwi Pengeulan hefyd, ymddengys bod Bronheulwen yn lleoliad mwy tebygol.

Rwy'n cael ar ddeall gan Edwina Davies, Darren Villa, un a fu'n byw ym Mronheulwen pan yn blentyn, bod tri neu bedwar tŷ yn y fan honno ar un adeg. Tybed felly ai enw ar un o'r tai hynny oedd *Troedrhiwnewydd*?

Waeth lle'n union yr oedd tŷ annedd *Troedrhiwnewydd*, yr awgrym yma yw mai'r *Rhiw Newydd* yw'r un sy'n codi o Ben-bont i *Benrhiwnewydd* ar draws Banc Ty'ngelli. Gallasai'r enw *Troedrhiwnewydd* fod wedi ei fathu mewn cyferbyniad â Throedrhiw Maesmeurig (hen enw Maesmeurig) ychydig yn uwch i fyny'r cwm.



Banc Ty'ngelli, gyda Phenrhiwnewydd yn y gornel chwith uchaf, Bronheulwen yn y gornel chwith isaf, a Phengeulan yn y gornel isaf ar y dde.


**Angharad Fychan**
Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

## Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



# Cofio Cwmystwyth

Edgar Morgan *Cofio'r Cwm: Cwmystwyth.* Prosiect Cofio'r Cwm, 2021. 175t. £14.99

"Tirlun sydd wedi goroesi'r canrifoedd,… olion hen luestau, ffermdai, bythynnod mwynwyr a gweithwyr amaethyddol, … cynefin y ddafad fynydd,… planhigion gwyllt y rhostir a'r ffriddoedd." Dyna rai o eiriau agoriadol Edgar Morgan i'w gyfrol gampus a gyhoeddwyd gan Brosiect Cofio'r Cwm ar achlysur trichanmlwyddiant Eglwys yr Hafod. Mae ei eiriau ac enwau'r ffermydd a'r tyddynnod a restrir ganddo yn ddigon i ddenu'r diocaf i grwydro'r hen lwybrau a phrofi hudoliaeth y Cwm.

Mae'r gyfrol fach hylaw, gyda'i thestunau Cymraeg a Saesneg cyfochrog, yn olrhain y tonnau hanesyddol ddaeth â bywyd i'r cwm rhwng Oes yr Efydd a heddiw: cloddio am fwyn yn dechrau yn Oes yr Efydd, yn cyrraedd ei anterth yn 19eg ganrif a marw yn y 1930au; amaethyddiaeth – yn un o brif faenorau Abaty Ystrad Fflur yn y Canol Oesoedd, dan reolaeth arloesol perchnogion Plas yr Hafod o ddiwedd y 18fed ganrif, ac yn nwylo gwyddonwyr amaethyddol Pwllpeiran o'r 1920au hyd heddiw - bellach dyma "Lwyfan Ymchwil yr Ucheldir".

Dyna'r sgerbwd, ond mae yma bobl hefyd, yn eu minteioedd, yn ffermwyr, yn dyddynwyr, yn fwynwyr, yn weinidogion, yn glerigwyr, ac yn athrawon, a'u hymdrech i ddod â'r gorau i'r ardal yn destun parch a rhyfeddod. Mae'n syndod cymaint o enwau sy'n hysbys i'r awdur - clerigwyr yr Eglwys o 1760 hyd 2019, gweinidogion a blaenoriaid y capeli, deiliaid y ffermydd a'r tyddynnod, a mwynwyr - mae yma lun o'r flwyddyn 1911 o 39 o fwynwyr, a phob un wedi ei enwi.


Sefydlwyd yr achos Methodistaidd cyntaf yng Nghwmystwyth tua 1750. Ceir cofiant byr i bob gweinidog fu'n gwasanaethu yma, a chrybwyllir gyda balchder y bechgyn a fagwyd yn yr ardal a ddaeth yn weinidogion i'r Hen Gorff mewn mannau eraill. Difyr a manwl eto yw hanes bwrlwm dyddiau cneifio'r gwahanol ffermydd,_ 29 ohonyn nhw yn y 1940au._Rhoir sylw i Ysgolion Cwmystwyth o ddyddiau Ysgolion Cylchynnol Gruffydd Jones hyd at fis Gorffennaf 1960, pan gaewyd drysau'r ysgol gynradd am y tro diwethaf. Ymhlith y casgliad nodedig o ffotograffau sydd yma, mae un o blant yr ysgol yn 1902-03 - 81 plentyn a 4 athro.

Rhag i neb feddwl mai cors felancolig am a fu sydd rhwng y cloriau, prysuraf i ddweud bod yma hefyd edrych ymlaen cadarnhaol ac ymfalchio yn y datblygiadau technolegol diweddaraf ddaeth i'r ardal, megis Fferm Wynt Cefn Croes a System Hydro-electrig Tyllwyd, heb anghofio'r datblygiadau cymdeithasol bywiog a welwyd yn y pentref.

Yn ôl Lyn Ebenezer yn ei Ragair: "Mae'r brwdfrydedd yn ddiddiwedd… Ail-gychwynnnwyd gwasanaethau crefyddol ar y Sul… Addaswyd festri'r capel yn ganolfan ddiwylliannol… Mae'r Eisteddfod bellach yn ôl ar ei thraed"a thelir teyrnged i Meredydd Evans a'i briod Phyllis am sbarduno'r deffroad hwn.

Un o ffrwythau'r deffroad yw'r gyfrol hon, sydd yn batrwm o ran ei mynegiant, manyldeb a helaethrwydd ei chynnwys, a'i gonestrwydd wrth wynebu'r dyfodol.

**Llinos Dafis**




Llyfr yw hwn am hanes, treftadaeth a chymuned Cwmystwyth - pentref cefn gwlad amaethyddol, oedd hefyd yn gartref i un o weithfeydd mwyn pwysicaf Cymru.


Yn ystod yr 20fed ganrif roedd tynged y Cwm yn debyg i gymunedau gwledig eraill ledled Cymru ond erbyn hyn mae Cwmystwyth yn ardal fywiog unwaith eto.

Yn y llyfr hwn, a gyhoeddir gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Ffermwynt Cefn Croes, ceir hanes pentref a chymuned a wrthododd farw.

£14.99

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627




Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Difyrion Digidol

## gyda Deian ap Rhisiart

Blwyddyn newydd i chi. Wrth i ni brofi cyfnod clo arall yng Nghymru, gyda chyfyngiadau teithio yn ein cadw i'r filltir sgwar, a chan bod hi'n fis Ionawr lle ydan ni'n tueddu i wneud addunedau i gadw'n iach, roeddwn yn meddwl y byddai'n amserol i drafod gwefannau ac apiau sy'n denu pobl i'r awyr agored ac i werthfawrogi byd natur.

Cofiwch nad oed raid dringo mynydd neu gerdded mewn coedwig law Geltaidd i ganfod bywyd gwyllt, mae llawer i'w ddarganfod ar garreg eich drws, boed yn forgrug neu robin goch. Hyd yn oed os ydych yn byw ynghanol dinas fel Caerdydd, mae natur o fewn tafliad carreg i ni.

Mae ymchwil yn dangos fod gweld gwyrddni a natur yn llesol i'n iechyd meddwl a chorfforol ac mae gwir angen hynny pan ydym yn byw mewn cyfnod clo.

Y gred arferol yw fod technoleg yn eich nadu rhag mynd allan a chael awyr iach, ond i'r gwrthwyneb, mae'n gallu hwyluso a thanio'ch diddordeb mewn byd natur.

Mae defnyddio Google Maps yn ffordd dda o ddechrau arni er mwyn i chi greu llwybrau a chynllunio a darganfod lleoliadau o ddiddordeb. Mae posib chwilota a phori trwy'r wefan https://www.google.com/maps/

Gallwch fynd yn bellach a chael blas ar y golygfeydd sy'n rhan o'ch dewis daith trwy ***Google Streetview***, mae hwn i'w gael ar waelod y map fel dyn bach. Er mwyn ei agor, mae angen llusgo'r dyn i'ch lleoliad o'ch dewis – mae'n bosib hyd yn oed cerdded i ben Yr Wyddfa! Gelir defnyddio hwn ar liniadur, ffon clyfar neu dabled/llechen electronig. Mae Google Earth hefyd ar gael yn yr app store ar eich tabled neu ffon clyfar. Teipiwch Google Earth yn Google ac fe ddewch ar ei draws os mai gliniadur sydd gennych.

Ond mae apiau ar gael sy'n ddefnyddiol tu hwnt ar gyfer adnabod bywyd gwyllt, heb orfod i chi fynd yn bell. Ac i bobl sy'n methu cerdded yn bell, mae yna apiau difyr i adnabod natur ar garreg eich drws. Mae ***Seek*** gan ***INaturalist*** yn helpu i chi adnabod bywyd gwyllt o'ch cwmpas o'r adar yn yr awyr i'r madarch wrth eich traed ac mae'n gweithio'n gymharol dda. Sut mae'r apiau hyn yn gweithio? Pan fyddwch yn agor yr ap a thrwy bwyso'r symbol lens, mae hwnnw wedyn yn agor y camera ar eich ffon, yna, anelwch y camera at y gwrthrych dan sylw gan dynnu ei lun. Wedyn, mi fydd yr ap wedyn yn gwneud y gwaith o'i adnabod – rhowch funud iddo. Ond cofiwch fod diffyg signal yn gallu effeithio ar hyn!

Mae yna apiau eraill yr ydw i wedi eu gweld yn ddefnyddiol, un lle ydach chi'n gorfod talu amdano ydi ***PictureThis*** – unwaith yn rhagor yn dilyn yr un egwyddor a'r apiau y crybwyllais i gyna. Ond arbenigedd yr ap hwn yw adnabod planhigion ac mae'n gywir iawn. Mae rhai apiau adnabod natur, wedi'u hanelu at fywyd gwyllt mewn cynefinoedd yn yr Unol Daleithau er enghraifft ac ni fyddant yn debyg o adnabod planhigion yn gywir yng Nghymru a gweddill ynysoedd Prydain ac Iwerddon, gan yn hytrach eu hadnabod fel rhywogaethau sy'n tyfu neu'n byw yng Nghalifornia neu rywle tebyg! Felly byddwch yn ofalus.

Mi ydw i'n gwneud defnydd da o apiau sy'n perthyn i'r un teulu sef ap Tree Id, Mushroom Id a Tree Id a Bird Id – nid ei pwrpas yw adnabod rhywogaethau, dim ond yn rhoi canllaw gwybodaeth i chi. Caiff y Bird Id ddefnydd cyson gyda'r mab Gwern sy'n 5 oed, ble mae posib gwrando ar recordiad o drydar yr aderyn, lle ceid disgrifiad ohono – mae'r ap yn adnodd addysgol wych i bob oed.


A'r pwysicaf oll o'r holl adnoddau sydd ar gael yw Cymuned Llên Natur ar Facebook. Wrth gwrs, dyma'r ffordd orau bosib i drafod byd natur gydag eraill, dysgu, cymharu, rhannu lluniau, gofyn cwestiynau i arbenigwyr, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Chwiliwch am y wefan ar Facebook, mae'n werth bod yn rhan o'r Gymuned os oes gennych ddiddordeb yn y maes. (https://www.llennatur.cymru/ neu https://www.facebook.com/llennaturcymru ). Os ydych chi hefyd yn wrandawr ffyddlon o raglen Galwad Cynnar ar BBC Radio Cymru ar foreau Sadwrn fel ydw i, mae'r rhaglen wedi dechrau grŵp i rannu lluniau. Chwiliwch am grŵp Galwad Cynnar yn y lle chwilio ar dop tudalen Facebook.

Gobeithio y bydd yr apiau a'r gwefannau uchod yn ddefnyddiol er mwyn gwerthfawrogi byd natur gerllaw. Rhowch dro arnynt a mwynhewch.

Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed ac angen cymorth digidol, mae croeso i chi ebostio Cymunedau. Digidol@wales.coop.

## Apêl am fwy o enwau genod gwych Cymru ar gyfer ail gyfrol!

Mae'r awdures Medi Jones-Jackson o Bow Street yn gwneud apêl am fwy o enwau merched i'w cynnwys o fewn cloriau ei llyfr newydd, yr ail *Genod Gwych a Merched Medrus* a fydd allan yn haf 2021.




Meddai Medi Jones-Jackson: "Rwyf wrth fy modd bod y llyfr cyntaf wedi bod mor boblogaidd. Ysgrifennais y gyfrol oherwydd wrth i mi ddarllen stori cyn gwely i fy merch Anest, sylweddolais fod yna fwlch yn y farchnad. Doedd 'na ddim llyfr tebyg yn dathlu llwyddiannau merched Cymraeg. Hoffwn i'r ail gyfrol gynnig ysbrydoliaeth hyd yn oed ehangach i ferched bach Cymru."

Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn haf 2019 ac mae wedi bod yn boblogaidd tu hwnt – cyrhaeddodd rhestr fer Gwobrau Tir na n-Og 2020 a rhestr fer categori Plant a Phobol Ifanc Llyfr y Flwyddyn 2020, ac ar hyn o bryd mae'n barod am drydydd argraffiad, a hyn llai na dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r gyfrol yn wreiddiol. Bydd yr ail gyfrol yn cynnwys 12 o fenywod gwych Cymru, gan gynnwys Cranogwen, Shirley Bassey a Mary Quant.

Fel rhan o'r llyfr bydd enwau merched medrus a genethod gwych Cymru yn ymddangos yn batrwm ar y cloriau mewnol, ac mae'r awdures yn gofyn i bobl anfon enwau ati.

Meddai Medi: "Cyhoeddir yr ail gyfrol ym mis Gorffennaf, ac rwy'n awyddus i roi'r cyfle i ferched bach Cymru berchnogi'r llyfr yma eto drwy gael eu henwau wedi eu hargraffu yn y gyfrol!"

Os ydych chi'n adnabod geneth wych neu ferch fedrus rhwng 5 a 10 oed, ac os hoffech chi weld ei henw mewn print yn y llyfr cyffrous, llawn lliw, cysylltwch yn uniongyrchol â Medi drwy e-bostio genodgwych@gmail.com cyn 19eg o Ebrill 2021, gan nodi enw llawn y ferch. Mae lle i nifer cyfyngedig, felly'r cyntaf i'r felin!

Dyma gyfrol i ysbrydoli ac i addysgu merched bach Cymru heddiw. Byddwch yn rhan ohoni!


GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ


01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Cyfres leol




*By the Banks of the Rheidol*, Y Lolfa, 2018; *The Long Way Home*, Aberesto, 2020; *The Turn of the Wheel*, Aberesto, 2020; gan Geraint Roberts.

Nid yw'n syndod bod y dyddiau rhyfedd hyn yn ennyn hunan-dosturi ynom. Welson ni erioed ddim byd tebyg i'r cyfnod presennol sy'n peri prysurdeb peryglus, dioddefaint a galar i lawer a diffeithdra a chaethiwed i eraill. Does ryfedd bod llawer o'r rhai sy'n gaeth yn troi yn ôl at archwilio'r gorffennol – chwilio'n hachau, cysylltu â pherthnasau pell am y tro cyntaf ers oesoedd, neu chwalu meddyliau am amseroedd a fu. Gall hyn ein claddu mewn tomen dywyll o hiraeth neu roi i ni goelcerth o oleuni i'n galluogi i ryfeddu at wrhydri, dyfalbarhad, cadernid a dycnwch y cenedlaethau a aeth o'n blaenau, yn wyneb anawsterau a bygythiadau na wyddon ni ddim amdanyn nhw.

Dyna'r profiad a ges i wrth ddarllen tair nofel Saesneg eu hiaith ond Cymreig eu cefndir sydd wedi ymddangos yn ystod y tair blynedd ddiwethaf – *the Turn of the Wheel*, *By the Banks of the Rheidol*, a *The Long Way Home*, â'u gosod yn nhrefn eu stori. Gŵr di-Gymraeg a anwyd ac a fagwyd yn Aberystwyth ac sydd bellach yn byw yn Llanilar yw Geraint Roberts, yr awdur.

Dwy genhedlaeth, tad a mab, Owain a Dafydd Thomas yw'r arwyr - arwyr yng ngwir ystyr y gair, yr un fath â'r rhelyw o'u cyfoedion. Mae'r gyfrol gyntaf yn agor yng ngwaith mwyn Frongoch ger Trisant yn 1873 gydag Owain, yn 14 oed, yn cael ei gyflwyno gan ei dad i amgylchiadau caled, bythol fygythiol gweithio dan ddaear; erbyn 1896, a'r ail gyfrol, mae Dafydd, mab Owain, sydd bellach tua'r deunaw oed, yn dianc o amgylchiadau treisiol y gwaith mwyn i weithio ar y rheilffyrdd, a oedd yn eu babandod ar y pryd; Fflandrys, 1915, yn ystod y rhyfel cyntaf yw lleoliad y drydedd, a Dafydd yn gyrru trenau i ddwyn gwŷr ifainc cydnerth, iach i faes y frwydr, a chyrff clwyfedig, maluriedig yn ôl oddi yno.

Cefndir llwm, caled, bygythiol ac arswydus weithiau sydd i'r tair cyfrol, a hwnnw'n cael ei ail-greu yn effeithiol iawn, yn enwedig yn y golygfeydd o dan y ddaear ac yn Fflandrys. I'r sawl sy'n ymddiddori mewn trenau stêm mae yma dorreth o fanylion gwybodus am y technegau yr oedd eu hangen i gael y peiriannau mawr pwerus hynny i ufuddhau i'r gyrrwr a'r taniwr. Mae yma hefyd ddigonedd o ddiddordeb dynol, troeon bywyd - carwriaethau, genedigaethau, marwolaethau, a charedigrwydd a chyfeillgarwch ochr yn ochr â chenfigen a drwgdybiaeth. Bu'r tair cyfrol yn ddihangfa ddifyr i fi am ddyddiau.

Byddai'r llyfrau wedi elwa o olygu mwy manwl mewn rhai mannau, ac mae hynny yn drueni, ond fel cyfanwaith sy'n cyfleu amgylchiadau caled ac arwriaeth oes arall maen nhw'n gweithio'n rhagorol.

Fe heriwn i unrhyw un i ddweud "Druan â ni yn ein cyfyngder heddiw" ar ôl eu darllen.

**Llinos Dafis**

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
Gwasanaeth Gymraeg
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

# Ysgol Craig yr Wylfa

**Dychwelyd i'r ysgol**
Mae hi wedi bod mor braf i ddechrau croesawu plant yn ôl i'r ysgol yn ystod y mis diwethaf. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion, mae plant y Cyfnod Sylfaen bellach yn ôl yn eu dosbarthiadau. Ac er ein bod yn gorfod parhau gyda'r holl fesuriadau hylendid trylwyr oedd ar waith cyn y Nadolig o ran cadw grwpiau cyswllt, cymryd tymheredd, creu llwybrau unffordd a glanhau ychwanegol mae'r plant a'r staff wedi llwyddo i greu awyrgylch hyfryd yma.

Cyn diwedd mis Mawrth rydym yn gobeithio'n fawr y bydd plant Cyfnod Allweddol 2 yn gallu dychwelyd atom fel ein bod unwaith eto'n gallu teimlo fel ysgol gyfan. Yn y cyfamser, mae'r plant yma'n parhau i gael eu dysgu o bell ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymdrechion eu teuluoedd i'n cefnogi gyda'r dysgu. Mae hi wedi bod yn braf i weld wynebau'r plant mewn sesiynau ffrydio byw a gweld y gwaith amrywiol sy'n cael ei gyflwyno ar TEAMS.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn wahanol iawn eleni wrth gwrs, ond roedd digon o fwrlwm yn y dosbarthiadau ac ar-lein hefyd. Roedd yn gyfle da i atgyfnerthu ffeithiau am ein nawddsant mewn awyrgylch hwyliog.

**HWB Gofal**
Yn ystod y cyfnod clo diweddaraf yma, hoffwn i ddiolch o galon i'r staff sydd wedi bod yn cynnal ein Hwb Gofal yn yr ysgol. Mae'r plant sydd wedi bod yn mynychu wedi cael profiadau amrywiol a chyffrous. Yn ogystal â chwblhau eu gwaith, mae'r plant wedi bod yn paratoi bwyd a choginio ac yn cyflawni pob math o waith celf sydd bellach yn harddu waliau'r ysgol.

**PC Hannah**
Diolch yn fawr i PC Hannah am gynnal sesiwn arbennig gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Mae hi'n dipyn o her i gynnal y sesiwn ar-lein a llwyddwyd i drosglwyddo'r negeseuon pwysig yn dda iawn.

**The Wall**
Fe gawsom ni gyd cryn dipyn o sioc ychydig wythnosau nôl o weld Miss Ann yn rhan o'r rhaglen The Wall sydd i'w weld ar y BBC ar nos Sadwrn. Llongyfarchiadau mawr i chi!















CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Ysgol Rhydypennau

**Dathliadau Gŵyl Ddewi**
I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg Gymreig, Cennin Pedr a mwynhau cawl cennin i ginio. Ac er mai ond plant y Cyfnod Sylfaen oedd yn bresennol yn yr ysgol, cafodd y plant dipyn o hwyl yn ystod y dathliadau. Gobeithio erbyn blwyddyn nesaf y byddwn ni i gyd yn yr ysgol ac mewn sefyllfa gwell i ddathlu ein Nawddsant ar Fawrth y cyntaf.

**Diwrnod y Llyfr**
Eleni, dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar y 4ydd o Fawrth. Roedd hyn yn gyfle i ni gyd werthfawrogi ein llyfrau gorau a thrafod ein hoff straeon. Eleni, cafodd pawb yn ein Cyfnod Sylfaen gyfle i wisgo patrymau i gyd-fynd â'r llyfr *Ffrindiau Gorau*.





**Gorchest**
Efallai, wrth ddarllen rhifyn diwethaf *Y Tincer,* fod ambell un ohonoch chi wedi sylwi ar ddarluniau gwych Emmi Hinks, Blwyddyn 6. Wel, mae doniau artistig Emmi wedi eu cydnabod yn swyddogol erbyn hyn gan iddi gyrraedd y brig mewn cystadleuaeth dylunio poster yn ddiweddar. Trefnwyd y gystadleuaeth rhwng Trafnidiaeth Cymru a chwmni 'Griffiths Civil engineer and Construction'. Roedd hi'n gystadleuaeth o'r safon uchaf ac roedd ansawdd arbennig i'r dyluniadau i gyd. Dyma farn un beirniaid am ddarlun buddugol Emmi;

"The judging panel were unanimous in their decision, and the judges were all blown away by her painting and her obvious talent."

Enillodd Emmi docyn llyfr werth £20 a mi fydd yr ysgol yn derbyn gwerth £500 o lyfrau i'r ysgol. Yn ychwanegol i hyn, mi fydd llun Emmi a'i dyluniad buddugol yn ymddangos ar wefannau Griffiths a Thrafnidiaeth Cymru. Llongyfarchiadau mawr Emmi. Campus yn wir!











# Ysgol Pen-llwyn

Gyda'r Gaeaf yn gyflym troi'n Wanwyn yn llythrennol o ran y tymhorau ac o ran y sefyllfa sydd ohoni, roedd yn braf iawn cael croesawu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ôl i'r ysgol yn dilyn yr Hanner Tymor. Wedi cyfnod o gael ymweld â'r ysgol mewn grwpiau bach, roedd yn hyfryd cael clywed bwrlwm a miri llond dosbarth o blant ar safle'r ysgol unwaith eto. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at fedru croesawu disgyblion CA2 yn ôl i'r ysgol yn hwyrach yn y tymor.

**Diwrnod Diogelwch y We**
Yn fwy perthnasol nag erioed eleni oedd dathliadau diwrnod diogelwch y we a gododd ymwybyddiaeth ein disgyblion o gadw'n ddiogel wrth wneud defnydd o adnoddau ar lein. Bu ein dewiniaid Digidol yn weithgar yn cymryd sesiwn ffrydio byw'r Cyfnod Sylfaen gan rannu stori Digi Hwyaden ac arddangos sgiliau TGCh newydd i ddisgyblion fedru treialu adre. Cynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer disgyblion CA2 i gynllunio poster yn hyrwyddo diogelwch ar y we. Llongyfarchiadau i Ania a fu'n fuddugol ac a enillodd becyn Microbit.

**Brecwast Masnach Deg**
Dathlwyd pythefnos Masnach Deg eleni trwy gynnal brecwast masnach deg byw gyda'n disgyblion ar fore Chwefror 25ain. Anogwyd disgyblion a'i rhieni i brynu cynnyrch masnach deg, a chynnyrch lleol a chyflwyno eu cynnyrch yn y brecwast masnach deg. Bu disgyblion Dosbarth 2 yn brysur yn creu bwydlen brecwast masnach deg ar gyfer eu teuluoedd cyn paratoi'r brecwast ei hun. Bu disgyblion wrthi yn brysur yn cwblhau gweithgareddau yn ymwneud a masnach deg trwy gydol yr wythnos.

**Adnewyddu Dosbarth 2**
Mae gwaith yn tynnu i ben ar adnewyddu dosbarth 2. Er mwyn sicrhau lle addas a chyfforddus ar gyfer disgyblion rydym wedi cael gwared ar y bloc tŷ bach fu yng nghefn y dosbarth gan ymestyn i mewn i'r gwagle. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at weld disgyblion yn ôl yn yr ysgol yn gwneud defnydd o'i dosbarth ar ei newydd wedd.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Braf oedd cael disgyblion nôl ar safle'r ysgol mewn da bryd i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi. Mwynhaodd ddisgyblion y cyfnod sylfaen beintio baneri Dewi Sant, gwrando ar straeon Gŵyl Ddewi, ac esgus coginio pice y maen yn y gornel clai. Gwisgodd disgyblion dosbarth 2 ddillad coch ar gyfer eu sesiynau ffrydio byw cyn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau rhifedd, llythrennedd a chreadigol yn ystod y dydd.

**Diwrnod y Llyfr**
Cyfle arall i wisgo i fyny'r wythnos hon gyda disgyblion yn dod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau ar gyfer diwrnod y llyfr. Roeddynt wrth eu bodd yn cael rhannu eu hoff straeon gyda gweddill y dosbarth a thrafod eu hoff gymeriadau. Yn nosbarth 2 gwisgodd ddisgyblion fel eu hoff gymeriad o lyfr ar gyfer ein sesiwn ffrydio byw. Cwblhawyd nifer o dasgau yn ystod y dydd gan gynnwys llunio clawr i lyfr, ysgrifennu llyfr ei hun a chasglu data ar yr holl lyfrau darllen sydd ganddynt adref.







## YSGOL PEN-LLWYN A YSGOL PENRHYN-COCH

**Her Hanner Tymor** Bu disgyblion, rhieni a chymunedau ysgol Penrhyn-coch ac ysgol Pen-llwyn yn cadw'n iach dros hanner tymor yn ein Her Hanner Tymor i gerdded, seiclo neu redeg pellter o 2,145 milltir ar y cyd, sef hyd yr adran hiraf o Wal Fawr Tsiena y medrir cerdded ar ei hyd. Apeliodd hyn yn fawr at ein disgyblion a oedd wedi astudio Rhyfeddodau'r byd y tymor hwn. Yn ogystal ag annog pob un i gadw'n actif yn ystod cyfnod clo arall, roedd yn gyfle hefyd i godi arian ar gyfer Elusennau Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac yn benodol ar gyfer ysbyty Bronglais, lle mae nifer o'n rhieni ni yn gweithio. Diolch i'n hathletwyr brwd, a'r elfen o gystadleuaeth ar Strava rhwng nifer o'n rhieni, cyrhaeddwyd y targed erbyn canol wythnos, er gwaetha'r tywydd garw! Ac wedi gosod targed newydd, o 3,000 milltir, llwyddwyd taro'r targed unwaith eto yn cyrraedd 3,416 milltir erbyn diwedd yr hanner tymor. Arwyddair ein hysgolion yw 'Gyda'n gilydd gallwn lwyddo' ac yn sicr ar yr achlysur yma llwyddo y gwnaethom! Diolch enfawr i Mr Bryn Shepherd am drefnu, i bob un am gymryd rhan, ac i bob un a gyfrannodd. Llwyddwyd i godi £865 at yr achos!

# Ysgol Penrhyn-coch

**Cyfnod Sylfaen**
Bu mis Chwefror yn fis prysur iawn, bu'r plant yn dysgu am adar, yn dathlu diwrnod Miwsig Cymru, diwrnod crempog a diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel. Rhaid llongyfarch y plant am weithio'n tu hwnt o galed gartref a chwblhau gwaith o safon uchel! Ond uchafbwynt mis Chwefror fu'n siŵr i nifer oedd dychwelyd yn ôl i'r Ysgol. Braf oedd croesawu disgyblion ieuengaf yr Ysgol nôl ar ddiwedd y mis. Roedd pawb i weld yn hapus iawn i fod nôl yn yr Ysgol.
Archarwyr oedd thema y dosbarth Derbyn wrth iddyn nhw ddychwelyd yn ôl i'r dosbarth -rhai am y tro cyntaf erioed! Felly roedd pob un ohonynt yn archarwyr go iawn!

**Diwrnod Defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel**
Cafodd pob disgybl ddiwrnod yn llawn gwybodaeth ar sut i fod yn ofalus ar lein ac yn ychwanegol at hynny fe gymerodd y dewiniaid digidol rôl arbennig wrth ymuno yng ngwersi byw plant y Cyfnod Sylfaen yn eu cynorthwyo ar ddysgu sgiliau /triciau Newydd.
Yn ogystal a hynny trefnodd y dewiniaid digidol gystadleuaeth i gynllunio poster i'r diwrnod arbennig. Llongyfarchiadau i Abigail Evans - enillodd becyn Microbit.

**Wythnos Iechyd meddwl plant a phobl ifanc**
Thema'r ymgyrch cenedlaethol eleni oedd Creadigrwydd ac yn ein gwersi byw boreuol cymerodd y plant ran mewn gweithgareddau amrywiol megis creu origami o gi bach, dilyn tiwtorial Huw Aaron ac yn ogystal a hynny rhai gweithgareddau anadlu, ioga a ffitrwydd.

**Dydd Miwsig Cymru**
Rhoddwyd her i'r disgyblion gan y Cymry i'r carn i greu Flipgrid yn sôn am eu hoff gân gan artistiaid o Gymru. Rhoddir rhain mewn i 'mixtape' a'i rhannu ar Teams. Roedd dewisiadau da gan bawb!
Bu Bl 5 a 6 wrthi'n brysur yn ystod yr wythnos yn gwneud prosiect cerddoriaeth drwy ddewis band neu canwr o'u dewis a chofnodi amdanynt, ysgrifennu bywgraffiad am Elin Fflur, creu Flipgrid o'u 10 uchaf. Yna ar y dydd ei hun fe wnaethom gwis Kahoot am gerddoriaeth Cymreig, chwilair cerddoriaeth, ymuno yn fyw ar Youtube gyda 'Disgo Gwersyll' cyntaf yr Urdd o Lan llyn ac i goroni'r cyfan ar ddiwedd y dydd fe wnaethon ni wrando ar Marci G ar Cymru.fm ar ei raglen arbennig i Ysgolion Ceredigion.

**Dydd Mawrth Ynyd**
Cafodd bl 3 a 4 sesiwn byw yn coginio crempogau gyda Mrs Evans!Wel am hwyl - roedd pob un yn drefnus cyn y wers ac wedi paratoi y cynhwysion yn dda. Cofiwn y sesiwn am amser hir! Roedd pawb wrth eu boddau yn dilyn cyfarwyddiadau ac wrth gwrs yn bwyta ar ddiwedd y sesiwn (er fod ambell grempog wedi sticio i'r pan)! Ond am hwyl!

**Pythefnos Masnach Deg**
Rydyn bob blwyddyn yn ceisio codi ymwybyddiaeth i bwysigrwydd cefnogi/ prynu cynhwysion a chynnyrch masnach deg ac roedd eleni ddim yn wahanol! Diolch i griw y Cyngor Ysgol am drefnu ein bod I gyd yn cymryd rhan ac yn mwynhau brecwast masnach deg-felly boed yn Ysgol neu ar lein bwytodd y mwyafrif rhywbeth masnach deg! Bu disgyblion wrthi yn brysur yn cwblhau gweithgareddau yn ymwneud masnach deg trwy gydol y pythefnos.

**Dydd Gŵyl Dewi**
Braf oedd cael disgyblion nol ar safle'r ysgol mewn da bryd i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Mwynhaodd ddisgyblion y cyfnod sylfaen creu cennin Pedr, gwrando ar straeon Gŵyl Ddewi, creu animeiddiad o Dewi ar fryn,casglu gwybodaeth amdano ar ôl gwylio ffilm fer gan 'Cwmni Sioe mewn cymeriad', ladi Gymraeg gan Ruth Jen ac i'r disyblion oedd adre rhoddwyd yr her o gwneud y pethau bychain yn union fel Dewi Sant. Braf oedd gweld nifer yn gwisgo coch tu ôl y sgrin!

**Diwrnod y Llyfr**
Cyfle arall i wisgo i fyny yr wythnos hon gyda disgyblion yn dod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau ar gyfer diwrnod y llyfr. Roeddynt wrth eu bodd yn cael rhannu eu hoff straeon gyda gweddill y dosbarth a thrafod eu hoff gymeriadau. Roedd y staff yn bictiwr hefyd!Roedd ganddon ni Cruella De Vill, Tri mochyn bach, Boc a llawer mwy! Bu disgyblion CA2 yn ysgrifennu llythyr i'w hoff awduron, chwarae gêm dyfalu teitl llyfr neu enw cymeriad ar 'Wordwall', tynnu ffotograff ohonyn nhw yn darllen mewn llefydd gwahanol -cafwyd sawl darlun doniol, yn y bath, mewn gôl, darllen i'r ieir, darllen yn y coed, ac ar siglen !!! Bu rhai yn trefnu eu casgliad o lyfrau fel llyfrgell go iawn! Diwrnod hwylus dros ben.












**Gyda'n gilydd**
Rydyn wedi cynnal her diddorol dros hanner tymor gyda Ysgol Pen-llwyn darllenwch ein hanes o dan Ysgol Pen-llwyn.

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu wrthi'n lliwio'r ddraig goch yn rhifyn Chwefror. Roedd eich lluniau'n werth eu gweld, bob un! Dyma'r enwau: Elis Jones Jackson, Bow Street; Hazel Leigh, Llandre; Caitlin Rees Roberts, Aberystwyth; Noah Fox, Penrhyn-coch; Elis Wyn Jenkins, Penrhyn-coch; Lois, Math a Celt Roberts, Bont-goch; Ania Evans, Capel Bangor; Seren Bates, Bow Street.

Dy ddraig goch di, Caitlin, ddaeth o'r het y tro hwn – llongyfarchiadau mawr! Daliwch ati, bawb. Mae'ch gwaith yn wych!

Mae wedi bod yn amser dathlu sawl peth, yndo? Dathlu Diwrnod y Llyfr, Sul y Mamau, Dydd Gŵyl Dewi (wrth gwrs!), llwyddiant Cymru yn y gemau rygbi ... ac mae'n siŵr eich bod yn ôl yr ysgol erbyn hyn ac yn cael cwmni eich ffrindiau eto. Cyn diwedd y mis byddwn yn dathlu wrth droi'r cloc, a chael mwynhau mwy o olau dydd a thywydd gwell, gobeithio! Mae 'na un peth arall y byddwn ni'n dathlu ym mis Ebrill, sef y **Pasg**, wrth gwrs. Ydech chi wedi cael wy siocled eto? Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd, a dyna beth ry'n ni'n ei ddathlu. Daeth Iesu Grist yn fyw eto – dyna yw neges y Pasg. Mae hen, hen goel yn dweud os byddwch chi'n cael dau felynwy o fewn yr un wy ar Ddydd Gwener y Groglith, byddwch yn dod yn gyfoethog iawn! Mewn sawl gwlad, mae pobl yn dathlu'r Pasg drwy baentio ac addurno wyau. Yn Llydaw maen nhw'n dweud *Pask Seder* ac yng Nghatalonia *Bona* Pasqua. Petaech chi yng Nghernyw, *Pask Lowen* fyddai'r dymuniad!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn**

Y tro hwn, beth am liwio llun yr wyau Pasg? Anfonwch eich lluniau drwy ebost (anwenmai@hotmail.co.uk) neu drwy'r post at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Ebrill 10fed. Ta ta tan toc, a mwynhewch eich gwyliau Pasg!



Caitlin

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 437 | Mawrth 2021

CYMRAEG Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru